

Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2019-22



Cyfnod: 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020



RHAGAIR

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad cynnydd (yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020) ar sail ein perfformiad yn erbyn y tri amcan llesiant a gynhwyswyd gennym yn ein Cynllun Corfforaethol 2019-2022.

At ei gilydd, yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gynnydd da ar ein taith at wella llesiant yn yr ardal. Er enghraifft, ym mis Medi 2019, etholodd pobl ifanc Castell-nedd Port Talbot eu Maer leuenctid a'u Dirprwy Faer leuenctid cyntaf erioed, a fydd yn llais i'r holl blant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol. Ym mis Mai 2019, fe gynhalion ni Wobrau Dinasyddion cyntaf Maer Castell-nedd Port Talbot. Roedd y gwobrau'n gyfle i gydnabod yr arwyr anhysbys ar draws Castell-nedd Port Talbot sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau. Cwblhawyd cyfnod dau o 'Lwybr Teithio Llesol Llwybr Halio Camlas Nedd' (o Stryd y Bont, Castell-nedd, i Lansawel) a lansiodd Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel ymgyrch i helpu pobl i adnabod ac osgoi maglau rhoi benthyg arian yn anghyfreithlon. Mae llawer mwy o gynnydd yn cael ei amlinellu'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, yng nghanol mis Mawrth 2020, cychwynnodd y Cyngor ymateb brys i'r argyfwng cenedlaethol oedd yn datblygu oherwydd COVID-19. Cafodd hyn effaith aruthrol ar gyflwyno ein gwasanaethau. Caeodd rhai o'n gwasanaethau i lawr er mwyn helpu i atal yr haint rhag ymledu, tra newidiodd gwasanaethau eraill er mwyn i wasanaethau hanfodol fedru gweithredu'n ddiogel. Ar ben hynny, sefydlwyd gwasanaethau newydd i gynnal ein cymunedau trwy'r argyfwng. Ni fuasai modd cyflawni hyn heb ymroddiad eithriadol gan weithlu'r Cyngor a'r bartneriaeth gref rhwng y Cyngor a'r undebau llafur.

Rwy'n eithriadol o falch o sut mae gweithlu'r Cyngor a'n cymunedau wedi addasu i'r cyfyngiadau llym mae pawb ohonom wedi'u hwynebu. Mae'r ymdrechion ar draws y fwrdeistref sirol i gynnal gwasanaethau hanfodol a chefnogi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf wedi bod yn eithriadol.

Byddwn i'n hoffi diolch nid yn unig i gyflogeion y Cyngor, a ddaeth i'r adwy yn ystod y pandemig hwn, ond hefyd i'r gwirfoddolwyr yn ein cymunedau a roddodd o'u hamser i gefnogi trigolion bregus y fwrdeistref. Diolch unwaith yn rhagor.

Y Cynghorydd Rob Jones, Arweinydd y Cyngor

Mae'r Adroddiad hwn ar gael yn [Saesneg](#) ac ar ein [gwefan](#).

Cynnwys

Cyflwyniad	5
<i>Sicrhau llywodraethiant da a gwelliant parhaus i'r Cyngor</i>	9
<i>Perfformiad Amcan Llesiant 1, blaenoriaethau gwelliant a chamau</i>	20
<i>Perfformiad Amcan Llesiant 2, blaenoriaethau gwelliant a chamau</i>	49
<i>Perfformiad Amcan Llesiant Tri, blaenoriaethau gwelliant a chamau</i>	78
<i>Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi</i>	110

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd am y cynnydd a wnaed yn erbyn y tri amcan llesiant a'r blaenoriaethau gwelliant cysylltiedig, fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2019-2022 (ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020).

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020, mae gofyn bod y Cyngor yn ystyried a yw'r amcanion llesiant cyfredol yn dal yn berthnasol neu a ddylid ystyried newidiadau i'r amcanion hynny. Gan fod yr amcanion wedi'u cytuno ym mis Medi 2017 a'u hadolygu ym mis Mawrth 2020, ni farnwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau.

Roedd fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020-2023 i gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, ni ddigwyddodd hynny. Mae ein [COVID-19: Moving Forward Strategy](#) yn nodi'r gwaith a wnaed gennym yn ystod cyfnod yr ymateb cyntaf, a beth byddwn ni'n ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu ailddechrau gweithredu'n ddiogel. Er mai ein Hamcanion Llesiant yw ein ffocws, mae angen i ni ganolbwyntio yn y tymor byr ar reoli'r argyfwng hwn.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2019-2020:

- **Amcanion llesiant** – mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd da o ran gweithredu'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2019-2022. At ei gilydd, cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r hyn roeddem wedi bwriadu ei wneud mewn perthynas â'n tri amcan llesiant a'r blaenoriaethau gwelliant cysylltiedig. Fodd bynnag, amharwyd ar rywfaint o waith a gynlluniwyd yn ystod mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19.
- **Blaenoriaethau gwelliant** – at ei gilydd mae 68 (82%) o'r 83 o 'gampau' sydd gennym, h.y. y camau gweithredu a bennwyd i gyflawni ein blaenoriaethau gwelliant, yn cyrraedd y nod, mae 13 (16%) yn agos at hynny, ac mae 2 heb gyrraedd y nod. Y llynedd adroddwyd bod 78 (83%) o'r 94 'cam' yn cyrraedd y nod, 15 (16%) yn agos ati, ac un heb wneud.

- **Sut rydym ni'n cymharu** – mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gymharu perfformiad â blynyddoedd ariannol blaenorol ac â Chynghorau eraill. Cafodd ein cyfres bresennol o 55 Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ei diwygio o gyfres fwy yn 2018-19 ac o ganlyniad i'r diwygio hwnnw nid yw cymharu 'tebyg at ei debyg' â pherfformiad cyffredinol KPIs y flwyddyn flaenorol yn briodol, ond darparwyd ffigurau crynodol 2018-19 isod.

Yn achos Dangosyddion 2019-20 lle mae gwybodaeth am y flwyddyn flaenorol ar gael, roedd 63% (32 o 51) wedi gwella neu gynnal perfformiad (roedd 44% wedi gwella/cynnal perfformiad yn 2018-19), 14% (7 o 51) wedi dirywio rhyw fymryn a 23% (12 o 51) wedi dirywio 5% neu fwy.

O Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol oedd â thargedau, sef ychydig dros hanner (54%), cyrhaeddodd 26 o 48 y targed, sydd yr un fath ag yn 2018-19 (cyrhaeddodd 54% y targed). Roedd 12 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 2019-20 5% neu fwy o dan y targed a bennwyd.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cymharu perfformiad ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a hynny yn erbyn y gyfres genedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs). Oherwydd pandemig COVID-19 ni chasglwyd set ddata 2019-20 gan Data Cymru felly nid oes modd gwneud cymhariaeth o'r fath ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, mae ein perfformiad yn ystod 2019-20 o safbwynt y PAMs wedi'i gynnwys yn adroddiad [Dangosyddion Perfformiad Allweddol](#) ein Cynllun Corfforaethol.

Mae asesiad mwy manwl o'n cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau gwelliant a'n perfformiad i'w weld yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Rhaglen newid corfforaethol – yn ystod 2019-20 fe wnaethom ni gynnydd da ar ein rhaglen newid corfforaethol yn y ffrydiau gwaith allweddol canlynol:

- **Digidol** – daliwyd ati i gyflawni “Strategaeth Ddigidol” y Cyngor (Clyfar a Chysylltiedig). Mae hynny’n golygu cofleidio manteision technolegau digidol er mwyn gwella sut mae’r cyngor yn gweithio i ddiwallu anghenion ein trigolion yn well a gwneud y fwrdeistref sirol yn ddeniadol i fuddsoddwyr busnes posibl.

Ar 4 Mawrth 2020, cynhaliwyd ein digwyddiad digidol Clyfar a Chysylltiedig 2020, a daeth rhyw 150 o gyflogaion Cyngor CNPT iddo.

Ymhlith y siaradwyr roedd Arweinydd Cyngor CNPT, y Prif Weithredwr Cynorthwyol a’r Prif Swyddog Digidol, Cyfarwyddwr Rhaglenni Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, Prif Dechnolegydd Trawsffurfio Digidol yn QA Ltd, Cyd-sylfaenydd a chyn Reolwr-Gyfarwyddwr Fortysix, Lewie Allen, a Kathleen Gwyrdan o Microsoft.

Yn ystod y digwyddiad deuwyd â nifer o feysydd gwasanaeth y cyngor ynghyd mewn marchnadle, i ddangos sut maent eisoes yn cofleidio clyfar a chysylltiedig trwy ddull gweithredu digidol yn gyntaf. Diben hyn oedd rhoi syniadau i’r cynrychiolwyr ynghylch sut gallai dull gweithredu digidol fod o fudd i’w meysydd gwasanaeth hwythau. Yn ein digwyddiad cawsom gydnabyddiaeth hefyd am ein gwaith ar gynhwysiad digidol gan Gymunedau Digidol Cymru, a derbyn tystysgrif ffurfiol i gadarnhau ein cefnogaeth i’r Siarter Cynhwysiad Digidol.

Mae’r gwaith a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu gallu digidol y Cyngor wedi bod yn gaffaeliad mawr yn ystod pandemig COVID-19. O fewn mater o wythnosau cynyddodd Gwasanaeth TGCh y Cyngor nifer y staff oedd yn defnyddio technoleg o bell o gyfartaledd o 50 y dydd i fwy na 1,500 y dydd, a darparwyd dros 1,350 o ddyfeisiau ar gyfer disgyblion sydd heb ddyfais addas neu gysylltiad Di-wifr gartre i barhau â’u hastudiaethau.

Rydym ni’n falch o fod yn un o fwy na 150 o awdurdodau lleol sydd wedi llofnodi’r Datganiad Digidol Lleol (5 Mawrth 2020). Mae rhagor o wybodaeth am hynny yma - <https://localdigital.gov.uk/what-is-the-declaration/>

- **Cynhyrchu Incwm** – ym mis Hydref 2019, recriwtiodd y Cyngor Gydlynnydd Masnachol, sydd wedi dechrau nodi nifer o gyfleoedd masnachol ac arbedion a fydd yn cael eu datblygu ymhellach yn 2020-2021. Rydym am fod yn Gyngor sy'n gwneud yn fawr o'r holl gyfleoedd sydd ar gael i gynyddu ei incwm mewn modd cytbwys er mwyn sicrhau bod modd cynnal ein gwasanaethau. Mae hynny'n cynnwys harneisio cyfuniad o incwm traddodiadol fel trethiant ac incwm annhraddodiadol fel nawdd a hysbysebu.
- **Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn** – Mae ein rhaglen Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn (BSRC) yn canolbwyntio ar ddatblygu cryfderau cymuned. Ei nod yw gwneud yn fawr o sgiliau a gwybodaeth trigolion unigol, y gefnogaeth a gynigir gan grwpiau cymunedol, a defnyddio prif asedau'r gymuned. Mae'r rhaglen yn beilot ar gyfer cyflwyno dull amgen o ddatrys problemau yn y gymuned, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau traddodiadol a ddarparwyd gan sefydliadau fel y cyngor a gwasanaethau ieuchyd. Bernir y bydd defnyddio adnoddau allweddol yn y gymuned yn helpu i leihau'r galw a'r costau mae cyrff sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Ceir gwybodaeth fanylach am y cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 yn Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019-20, sydd ar gael yn [Gymraeg](#) neu [Saesneg](#).

Sicrhau llywodraethiant da a gwelliant parhaus i'r Cyngor

Cynllunio corfforaethol – Ym mis Rhagfyr 2018, cwblhaodd y Cyngor offeryn hunan-adyfyrio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Datblygwyd yr offeryn i alluogi'r Comisiynydd i gyflawni dyletswydd monitro ac asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y 44 corff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n destun dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhoddodd y Comisiynydd adborth i'r Cyngor ym mis Medi 2019, oedd yn cynnwys asesiad a chynghor ar ein cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant a gweithredu'r Ddeddf. Roedd y Comisiynydd yn croesawu'r farn bod ein tri amcan llesiant yn ffurfio fframwaith integredig sy'n arddangos cyfraniad popeth mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at y nodau llesiant cenedlaethol. Gwnaeth y Comisiynydd sylwadau cadarnhaol hefyd ar fersiwn ryngweithiol ein gwefan o adroddiad blynyddol 2017-2018, oedd yn cynnwys hanesion i ddarlunio sut mae ein gwaith yn effeithio ar bobl leol.

Fodd bynnag, fe wnaeth y Comisiynydd sylwadau ar ein dull o gwblhau'r offeryn hunan-adyfyrio, ac argymhell ein bod yn cynnwys ystod ehangach o bobl yn y dyfodol. Gwnaeth y Comisiynydd sylwadau hefyd ar y diffyg gwybodaeth yn ein hunan-adyfyrio ar y rhwystrau rydym wedi eu hwynebu wrth weithredu'r Ddeddf, ac fe hoffai weld hefyd mwy o hunan-adyfyrio ar yr effaith mae'r camau a geir yn ein Cynllun Corfforaethol yn ei chael ar gyflawni ein hamcanion llesiant. Darparodd y Comisiynydd asesiad mwy penodol a chynghor ar y cynnydd rydym ni'n ei wneud tuag at ein hamcanion llesiant oedd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ar amrywiaeth y camau a'r gweithredoedd o dan bob un o'n hamcanion llesiant. Fodd bynnag, cynghor y Comisiynydd wrth adolygu ein hamcanion a'n camau oedd ein bod yn ystyried beth fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth wella llesiant ar gyfer trigolion Castell-nedd Port Talbot.

Yn ystod 2019-20, gwnaeth Archwilio Cymru waith i weld a yw'r Cyngor yn gweithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gam a gymerwyd o Amcan Llesiant tri yng Nghynllun Corfforaethol 2019-2022: 'Byddwn ni'n cyflwyno rhaglenni adfywio strategol'. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol: "Mae'r Cyngor yn dylunio'i brosiectau adfywio i wella llesiant ond mae cyfleoedd i gryfhau cymhwysiad egwyddor datblygu cynaliadwy". Cynigiodd Archwilio

Cymru 10 cynnig ar gyfer gwelliant, y mae'r Cyngor wedi ymateb iddo ar ffurf cynllun gweithredu. Mae adroddiad Archwilio Cymru (gan gynnwys y cynllun gweithredu) i'w weld [yma](#)

Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2019-2020 – Ar 21 Mai 2020, cymeradwyodd y Cabinet Ddatganiad Llywodraethu Blynnyddol y Cyngor 2019-2020. Fodd bynnag, gan fod yr asesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2019-2020 wedi digwydd cyn pandemig COVID-19, gofynnodd y Cabinet am adolygiad brys o'r gwaith gwella a amlinellwyd ar gyfer gweithredu yn ystod 2020-2021. I ymateb i'r cais hwn, datblygodd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adendwm oedd hefyd yn ystyried y materion a nodwyd ym mhapur briffio Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA. Mae'r Adendwm yn cyflwyno'r canlynol:

- a. Y newidiadau i system mesurau rheoli mewnol y Cyngor (rhwng 16 a 31 Mawrth 2020) oedd yn ofynnol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu rhoi ei ymateb brys ar waith;
- b. Adolygiad gwersi a ddysgwyd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y newidiadau uchod;
- c. Ailasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor fel rhan o sefydlogi a fydd, yn y man, yn llywio'r cynllunio ar gyfer adferiad er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol; a
- d. Thabl gwaith gwella diwygiedig ar gyfer 2020-2021. Mae'r gwaith gwella gwreiddiol ar gyfer 2020-2021, a nodwyd fel rhan o baratoi Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2019-2020, wedi cael ei flaenoriaethu o'r newydd, ac mae peth o'r gwaith gwella wedi cael ei ohirio fel bod modd rhoi sylw i'r blaenoriaethau gweithredu a nodwyd yn dilyn yr ailasesiad uchod.

Cymeradwywyd yr [Adendwm](#) gan y Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020, ynghyd â chymeradwyo cyfnewid tabl gwaith gwella 2020-2021 oedd yn rhan o Ddatganiad Llywodraethu Blynnyddol 2019-2020 â'r camau gwella a nodwyd yn yr Adendwm.

Cynllunio Ariannol – Yn 2019-20, cyflawnwyd ein harbedion cyllideb targed o £5.803 miliwn, gan ddod â chyfanswm y gostyngiad yn y gwariant cronol ers 2010 i ryw £95 miliwn. Cyfanswm y gwariant refeniw net oedd £287.999 miliwn. Paratowyd y gyllideb yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol 2019-2022, ar sail y tri amcan llesiant, ac roedd yn cynnwys:

- amddiffyniad ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n galluogi gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth sy'n lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus, ochr yn ochr â hybu llesiant;
- amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau integredig a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau mwy cydlynus i ddinasyddion;
- amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael effaith hirdymor ar gynaliadwyedd; ac
- amddiffyniad ar gyfer trefniadau cydweithio allweddol.

Yn 2019-20 derbyniodd y Cyngor ryw £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru i dalu am ei ofynion Cyllid Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynhyrchu adnoddau ychwanegol o gynigion arian grant, arian a ddaeth i law trwy werthu asedau, a benthyg yn ofalus.

Yn ystod 2019-20 buddsoddodd y Cyngor £38 miliwn o'i raglen gyfalaf mewn prosiectau megis:

- datblygiad rhaglen Band B y Cyngor ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif, gydag ysgol newydd yng Nghefn Saeson ac Abbey Primary;
- buddsoddiad o £1.996 miliwn mewn prosiect atal llifogydd a risg arfordirol ar Lan Môr Aberafan; a
- symud ymlaen gyda phrosiectau adfywio, gan gynnwys ailddatblygu canol Tref Castell-nedd, datblygu Adeilad Crown gynt, gwaith ailddatblygu yn hen sinema'r Plaza a chwblhau'r gwaith yn Llys Ynadon Port Talbot gynt.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddiad cyfalaf fel modd i adfywio'n cymunedau a darparu adeiladau modern, diogel a seilwaith fel ffyrdd a phontydd. Mae'r Rhaglen Gyfalaf hefyd yn golygu bod arian yn mynd i sawl prosiect twristiaeth pwysig yn ein trefi a'n cymoedd.

Diweddarodd y Cyngor ei [Flaengynllun Ariannol](#) ym mis Mawrth 2020 i gyflawni arbedion ariannol, ac mae wedi cynhyrchu [cyllideb ategol ar gyfer 2020-21](#) o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Gweithlu – Ym mis Mehefin 2018, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Gweithlu Corfforaethol. Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw ein galluogi i ddiweddarau goblygiadau gweithlu ein Cynllun Corfforaethol, ac mae'n nodi'r camau mae angen i ni eu cymryd i gyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Nod y cynllun yw ein galluogi i ganfod unrhyw fylchau rhwng ein gweithlu heddiw a'r gweithlu bydd arnom ei angen wrth edrych ymlaen dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt – sicrhau bod gan y Cyngor y nifer cywir o bobl sydd â'r sgiliau a'r agweddau cywir yn eu lle ar yr adeg gywir i gyflawni ei wasanaethau a'i swyddogaethau.

Mae'r cynllun yn cyflwyno'r prif heriau ar gyfer ein cyflogaion yn ystod y pum mlynedd nesaf, a fynegir yn amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, y Blaengynllun Ariannol, cynlluniau rheoli asedau a'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Cafodd y Cynllun a'r camau i'w gyflawni eu hadolygu gan yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2019, i sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben ac yn cyfateb i flaenoriaethau'r Cyngor.

Fel elfen allweddol o gynllunio'r gweithlu, lansiodd y Cyngor Becyn Offer Cynllunio Olyniaeth ym mis Medi 2019, i helpu rheolwyr i nodi camau ar gyfer datblygu gweithlu'r dyfodol. Mae hyn yn allweddol er mwyn cyflawni'r amcanion uchelgeisiol a nodwyd yn Strategaeth Ddigidol y Cyngor, Clyfar a Chysylltiedig, gan sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn gallu addasu i dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mewn partneriaeth â SOCITM datblygodd y Cyngor Raglen Arweinyddiaeth Ddigidol (y gyntaf yng Nghymru) ac yn ystod 2019-2020 cwblhaodd rhyw 100 o reolwyr ac arweinyddion y cwrs dau ddiwrnod hwn, oedd wedi'i fwriadu i'w helpu i arwain y newid trawsffurfiannol sy'n darparu sylfaen ar gyfer Clyfar a Chysylltiedig.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd y Cyngor ei adroddiad cyntaf ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, oedd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng tâl cyfartalog y dynion a'r benywod sy'n gweithio yn y Cyngor, sef 4.21% ym mis Mawrth 2018. Gostyngodd hyn i 3.93% ym mis Mawrth 2019. Er bod hyn yn galonogol, mae'r Cyngor yn ymroddedig i barhau i weithio i leihau'r bwlch hwn ymhellach. Gyda hyn mewn golwg, ymunodd y Cyngor â Chynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ym mis Chwefror 2019, i'n cefnogi i gyflawni cydraddoldeb rhywedd yn ein gweithleoedd a sicrhau holl fanteision gweithlu gwirioneddol gytbwys. Eleni, bu Chwarae teg yn asesu polisïau ac arferion cydraddoldeb rhywedd y Cyngor, gan gynnwys arolwg o weithlu'r Cyngor, a chawsom Ddyfarniad

Arian am Amrywiaeth Rhywedd. Mae'r dyfarniad hwn yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwneud ymrwymiad clir i wneud gwahaniaeth yng nghyswllt recriwtio, cadw a chynnydd benywod yn y gweithle.

Mae Chwarae Teg wedi'n helpu i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Rhywedd, sy'n cynnwys camau penodol i leihau Bwlch Cyflog y Cyngor rhwng y Rhywiau. Mae'r cynllun gweithredu yn ystyried yn benodol y cyflogeion benyw sy'n derbyn y tâl isaf, sy'n arbennig o bwysig, oherwydd er bod proffil rhywedd cyffredinol y Cyngor yn fenywod 70%, mae 97% o'r rhai a gyflogir ar Radd 1, band cyflog isaf y Cyngor, yn gyflogeion benyw.

Ymrwymodd y Cyngor i Adduned Cyflogwr Ymgyrch Amser i Newid Cymru ym mis Medi 2019, sy'n darparu fframwaith i gyflogwyr weithio oddi mewn iddo er mwyn cefnogi cyflogeion â'u hiechyd meddwl. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r gweithlu, gan mai absenoldeb cysylltiedig â ieuchyd meddwl sy'n cyfrif am y nifer uchaf o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eisoes i gynyddu ymwybodaeth o ieuchyd meddwl a chyfeirio ymlaen at gyngor, arweiniad a chefnogaeth, ac yn 2020 bydd y Cyngor yn recriwtio rhwydwaith o Hyrwyddwyr o'i weithlu, i helpu gyda'r ymgyrch i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â ieuchyd meddwl ac annog ein cyflogeion i drafod eu llesiant meddyliol.

Rheoli Asedau – Mae'r trefniadau rheoli asedau wedi ennill eu plwyf ers meitin, gyda chysylltiadau clir â chynllunio gwasanaeth a strategol a threfniadau cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor. Mae ein cynlluniau rheoli asedau yn darparu gwybodaeth am nifer a chyflwr y dosbarthiadau canlynol o asedau: priffyrdd, cerbydlu, pontydd a strwythurau, eiddo a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r lleihad yn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor yn rhoi cryn bwysau ar y maes gwaith hwn. Cyflwynir y risgiau cysylltiedig yng nghofrestrau risg Strategol a Gweithrediadol y Cyngor, ac mae hynny yn ei dro yn llywio dyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf.

Rheoli Risg – Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro ei risgiau yn y tymor byr, canolig a hir yn unol â Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol y Cyngor, sy'n hyrwyddo agwedd agored, gyson a rhagweithiol at reoli risg. Yn ystod 2019-2020, cyflwynwyd adroddiadau monitro i uwch-reolwyr a Chabinet y Cyngor yn rheolaidd. Er mwyn cryfhau'r broses waelodol o reoli risg, rhoddwyd system newydd integredig o reoli risg a pherfformiad corfforaethol

(CPMS) ar waith yn 2018. Mae CPMS yn golygu bod modd sicrhau agwedd gyson at gofnodi ac adrodd am risgiau (strategol a gweithrediadol) ar draws y Cyngor.

Caffael – Mae caffael yn cyflawni rôl bwysig yn sut mae'r Cyngor yn dyrannu adnoddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ystod 2019-2020, datblygwyd Rheolau Gweithdrefnau Contract newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2019, ac a ddaeth i rym o 1 Medi 2020. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract yn ymgorffori rhwymedigaethau Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae'r Polisi yn mabwysiadu'r diffiniad canlynol o gaffael cynaliadwy "y broses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran manteision cynhyrchu i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, ochr yn ochr â lleiafu difrod i'r amgylchedd".

Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract diwygiedig hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ystyried y pum ffordd o weithio ac yn cynnwys cyfeiriadau at y swyddogion technegol perthnasol am gyngor. Cynhwyswyd yr elfennau canlynol: manteision cymunedol; manteision amgylcheddol a chynaliadwyedd; profi darpariaethau yn y farchnad i bwysleisio ymgysylltiad ymlaen llaw â chyflenwyr lleol, fel eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd sydd ar droed; a'r gallu i rannu contractau yn elfennau llai wrth dendro er mwyn annog cyflenwyr bach a lleol i ymwneud â nhw.

Ar ben hynny, datblygwyd Dogfennau Strategaeth Dendro'r Cyngor ymhellach i gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod 'Defnyddwyr Gwasanaeth' yn rhoi sylw dyledus i'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y cyfnod cynllunio caffael (e.e. diwrnodau ymchwil marchnad/cyflenwyr; manteision cymunedol; manteision amgylcheddol a chynaliadwyedd; contractau neilltuedig; strwythur 'gosod'; ac Asesiad Effaith Integredig y Cyngor sy'n gofyn yn uniongyrchol bod swyddogion yn ystyried y pum ffordd o weithio).

Mae'r Cyngor hefyd wedi drafftio Dogfen Canllawiau Caffael yn cyflwyno'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a'u gosod yng nghyd-destun caffael. Nod y canllawiau yw amlygu ymwybyddiaeth o'r nodau a'r ffyrdd o weithio a'u cyflwyno yng nghyd-destun caffael, gyda'r bwriad o sicrhau bod ystyriaethau o'r fath yn cael eu mabwysiadu adeg cynllunio caffael, er mwyn medru cynnwys darpariaethau priodol yn yr ymarferiad caffael.

Monitro ac Adolygu – Ar hyd y flwyddyn, rydym ni'n archwilio'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion llesiant a gyflwynwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hynny'n cynnwys monitro mesurau perfformiad allweddol a gynhwyswyd yn y Cynllun Corfforaethol a mesurau perfformiad lefel gwasanaeth gan y Cabinet a'r Byrddau Cabinet perthnasol (bob chwarter).

Cynhwysir perfformiad y flwyddyn gyfan yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn lle mae ar gael, gan fod nifer bychan o ddangosyddion lle nad oes data blwyddyn lawn ar gael oherwydd pandemig COVID-19. Mewn achosion o'r fath bydd y naratif ar gyfer pob mesur perfformiad allweddol yn amlinellu hynny.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Adrodd – Ym mis Chwefror 2018, cymeradwywyd y Strategaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cymunedol Gorfforaethol (2018-2020) 'Siarad yn CNPT' (mae copi ar gael [yma](#)). Datblygwyd y Strategaeth i'n helpu i gyflawni'r gofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i gynnwys pobl yn y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud. Fe'i lluniwyd hefyd i sicrhau bod ein hymdrechion cyfathrebu a chysylltiadau cymunedol yn eu crynswth yn fwy cyson, effeithiol a pherthnasol, ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r Strategaeth yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd yng ngoleuni'r dysgu yn dilyn yr ymateb cyfathrebu i bandemig COVID-19 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2020-2021.

Ers i'r strategaeth wreiddiol gael ei chynhyrchu, gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

Ymgynghori ac ymgysylltu – Yn ogystal ag ardal benodol ar gyfer ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, lansiwyd Cymuned Ymarfer ar gyfer Ymgysylltu a Chyfranogiad, sy'n cynnwys y swyddogion hynny sy'n gysylltiadau allweddol ar gyfer grwpiau mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd. Prif ffocws gwaith y Gymuned yw edrych ar sut gallwn ni weithio'n glyfrach ac mewn modd mwy cydweithredol i sicrhau bod pawb yn ein cymunedau yn cael cyfle i leisio barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Hefyd ym mis Ionawr 2020 lansiwyd Panel Dinasyddion CNPT. Mae'r Panel yn agored i drigolion Castell-nedd Port Talbot sy'n 16 oed a throsodd. Caiff aelodaeth y panel ei chymharu â gwybodaeth y cyfrifiad am y fwrdeistref sirol, i sicrhau bod y Panel yn cynrychioli poblogaeth amrywiol Castell-nedd Port Talbot. Diben y Panel yw:

- sicrhau ei fod yn fwy hwylus i drigolion Castell-nedd Port Talbot roi adborth i'r Cyngor ar ei waith a chyfrannu at newid polisi a gwasanaeth;
- cynnwys trigolion yn weithredol mewn penderfyniadau yn gynnar iawn, fel eu bod yn helpu i lunio cynigion cyn i'r rheiny fod yn destun ymgynghori cyhoeddus ehangach;
- datblygu mecanwaith ar gyfer sicrhau adborth cyflym, dibynadwy gan drigolion am gynigion a syniadau newydd; a
- helpu'r Cyngor i ddeall safbwyntiau'r trigolion, i helpu i wneud penderfyniadau.

Ni fydd y Panel Dinasyddion yn disodli ymgynghoriadau ffurfiol, ond yn hytrach yn digwydd ochr yn ochr â nhw ac yn darparu modd arall i bobl Castell-nedd Port Talbot sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a chyfranogi mewn penderfyniadau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Os hoffech chi ymuno, ewch i:

<https://www.npt.gov.uk/citizenspanel>

Cydweithio – Mae gan y Cyngor hwn draddodiad cryf o weithio mewn partneriaeth a gallwn gyfeirio at lawer o bartneriaethau a threfniadau cydweithio ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym ni'n credu mewn cydweithio, ond mae'n bwysig bod dinasyddion yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r economi leol yn elwa o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni trwy'r trefniadau gwaith hyn, sy'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant.

Yn gynnar yn 2020, roedd pwyllgorau craffu'r Cyngor yn bwriadu adolygu'r trefniadau cydweithio presennol i sicrhau eu bod ar sylfaen gadarn ac yn gynhyrchiol, fel bod modd i Gabinet y Cyngor fod yn hyderus bod y trefniadau hynny yn gweithio er lles pennaf dinasyddion a hefyd, bod trosolwg democrataidd clir ac effeithiol ar y trefniadau hynny. Bu oedi yn achos y gwaith hwn oherwydd pandemig COVID-19.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, sy'n rhoi trosolwg o gynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn dangos sut mae cyrff sy'n aelodau ohono ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol yn cydweithio i wella llesiant yn y fwrdeistref sirol. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn [Gymraeg](#) neu [Saesneg](#), neu yn www.nptpsb.org.uk lle cewch ragor o wybodaeth hefyd am y BGC a'i waith.

Yn ogystal â sicrhau cynnydd yn y ffrydiau gwaith a nodwyd yn y Cynllun Llesiant, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gallu ymateb yn gyflym i faterion lleol sy'n codi trwy ddefnyddio dull gweithredu mewn partneriaeth i fwyafu'r effaith. Er enghraifft, o ganlyniad i ddata sy'n dod i'r amlwg yn dangos niferoedd uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ffurfiodd y partneriaid Grŵp Digwyddiadau Critigol i edrych yn fanylach ar y sefyllfa a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer gwelliant i'w cyflawni ar unwaith, sydd bellach ar waith gan y Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei fonitro gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ac Abertawe ar y cyd. Mae'r Byrddau hefyd wedi ymateb i gyfradd hunanladdiad uwch na'r cyfartaledd yn yr ardal, ac maent yn arwain ymateb amlasiantaeth trwy ddatblygu Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ar gyfer y rhanbarth.

Ym mis Chwefror 2020, cafodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ymweliad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe. Cafodd y partneriaid gyfle i rannu'r gwaith da oedd yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a hefyd i godi unrhyw anawsterau neu heriau roedden nhw'n eu hwynebu. Rhoddodd y Comisiynydd adborth ar adroddiad blynyddol y flwyddyn flaenorol a'r meysydd ar gyfer gwelliant, a rhannwyd enghreifftiau o arfer da o rannau eraill o Gymru.

Cydraddoldeb – Yn ystod 2019-2020 cynhaliwyd adolygiad o'n hamcanion cydraddoldeb a drafftio Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig. Wrth ddrafftio'r amcanion cydraddoldeb buom ni'n ystyried amrywiol gyhoeddiadau cenedlaethol a lleol/canfyddiadau ymchwil; y data diweddaraf oedd ar gael i'r Cyngor a materion a godwyd gan grwpiau cydraddoldeb lleol yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb. Roedd y Cynllun diwygiedig i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2020, ond bu oedi oherwydd pandemig COVID-19. Bydd y Cynllun diwygiedig, gan gynnwys yr amcanion cydraddoldeb diwygiedig, yn awr yn cael ei gyhoeddi

erbyn 1 Hydref 2020. Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar fel lladd George Floyd, effaith anghymesur COVID-19 ar bobl o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, a digwyddiadau eraill yn ein hanes diweddar, rydym ni'n gweithio gyda'n hamrywiol gymunedau i gynhyrchu cynllun gweithredu manwl i gyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb diwygiedig er mwyn cyflawni gwell cydraddoldeb, tegwch a chydlyniant cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cyhoeddir y cynllun gweithredu erbyn diwedd 2020.

Bydd manylion pellach am adolygiad yr amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2020 ac fe'u cyhoeddir ar ein [gwefan](#) tua diwedd y flwyddyn.

Y Gymraeg – Mae gweithio i gyflawni gofynion safonau'r Gymraeg yn rhan allweddol o'n gwaith, ac er nad ydym bob amser yn llwyddo, rydym yn ymroddedig i egwyddor Mesur y Gymraeg 2011. Mae ein [Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2019-2020](#) yn darparu rhagor o wybodaeth am sut rydym ni'n cyrraedd y safonau ac mae'r cynnydd o ran ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg hefyd i'w weld [yma](#).

Mae darparu gwasanaeth yn Gymraeg â nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg yn heriol. Fodd bynnag, rydym ni'n edrych yn barhaus am ffyrdd o oresgyn hynny er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac ymatebol.

Ganol mis Mawrth penderfynwyd y byddai'r holl gyfathrebu ynghylch pandemig COVID-19 yn digwydd yn Saesneg yn unig. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail iechyd a diogelwch, yn ogystal â mater mwy ymarferol adnoddau cyfyngedig (yn fwy na'r arfer, hyd yn oed) mewn cyfnod mor heriol, a gorfod addasu blaenoriaethau. Yn wyneb lefel ac amllder y cyfathrebu yn ystod cyfnod cynnar yr argyfwng barnwyd bod darparu gwybodaeth cyn gynted â phosibl yn hanfodol ar gyfer iechyd a diogelwch ein cymunedau. Roedd oedi wrth gynhyrchu gohebiaeth Gymraeg yn anochel, ac felly buasai'n niweidiol i'r nod o gyrraedd pawb cyn gynted â phosibl â gwybodaeth briodol i helpu'n trigolion i gadw'n ddiogel ac yn iach. Rydym wedi ailgyflwyno cyfathrebu dwyieithog wrth i ni symud trwy'r cyfnod sefydlogi.

Mae'r adran nesaf yn darparu asesiad manwl o'n perfformiad yn erbyn pob un o'r camau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2019-2022 i gyflawni ein tri amcan llesiant a'n blaenoriaethau gwelliant. Mae hyn hefyd yn cynnwys statws CAG cyffredinol yn erbyn pob Cam, ar sail yr allweddol ganlynol:

- Gwyrdd: ar y cyfan rydym ni'n cyrraedd y nod o gyflawni'r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2019-20
- Ambr: Yn agos at gyrraedd y nod, ond rydym heb gyflawni peth o'r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2019-20
- Coch: Yn gyffredinol heb gyrraedd y nod o gyflawni'r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2019-20, naill ai o ran amserlenni neu fethiant i gyflawni o bosibl.

Perfformiad Amcan Llesiant 1, blaenoriaethau gwelliant a chamau

Amcan Llesiant 1: Gwella llesiant plant a phobl ifanc: *“Bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn iddyn nhw fod y gorau gallan nhw fod”*



Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru lewyrchus	Nod y gyfres o flaenoriaethau a chamau, ar y cyd, yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd addysg amser llawn, yn barod i wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd.
Cymru iachach	Mae pob ysgol yn CNPT yn “Ysgol Iach” ac mae gan y fwrdeistref sirol hefyd gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol. Ffocws yn y Cynllun hwn yw rhoi mwy o bwyslais ar lesiant emosiynol er mwyn rhoi i blant a phobl ifanc y sgiliau, yr ymddygiad a'r gefnogaeth mae arnyn nhw eu hangen. Ar ben hynny, bydd rhaglenni rhianta yn targedu'r teuluoedd hynny sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth. Mae gan y Cyngor ddata da ar gyfer canfod ble mae gwahaniaethau cyrhaeddiad a chanlyniadau yn achos plant a phobl ifanc o wahanol gefndiroedd, ac mae rhaglenni yn eu lle i roi sylw i anghydraddoldeb ac annhegwch.
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth ar draws yr ystod o weithgareddau a gynigir yn y Cynllun hwn. Hefyd mae cydnabyddiaeth a gwaith i ymdrin ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau, p'un a yw mewn perthynas â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig, yn anghydraddoldeb oherwydd gwahaniaethau incwm, neu'n digwydd yn ôl a yw plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain neu'r cyngor.

Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:

	Mae rhaglenni i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch personol a chymunedol wedi ennill eu plwyf ers meitin, ond mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod angen adolygu ein rhaglenni'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Er enghraifft, mae paratoi plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein wedi dod yn faes ffocws allweddol oherwydd bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, radicaleiddio ac ymddygiad troseddol arall yn digwydd ar-lein.
Cymru gydnerth	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i bwysigrwydd yr ecosystemau a'n hamgylchedd yn gynnar. Bydd y prosiect peilot sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Gorllewin Sandfields yn edrych yn fanylach ar sut gallwn ni fanteisio ar y mannau gwyrdd a glas yn ein bwrdeistref sirol i ddatblygu llesiant ein plant a'n pobl ifanc.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae lleihau anghydraddoldeb ac annhegwch yn thema gref ar draws y blaenoriaethau a ddatblygwyd i gefnogi cyflawni'r amcan hwn. Mae ffocws arbennig ar y plant sy'n wynebu'r risg uchaf o ddioddef profiad niweidiol yn ystod eu plentyndod, gyda'r bwriad o gryfhau gwaith ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae'r Cynllun hwn hefyd yn ymrwymo i adeiladu ar ein gwaith hawliau plant er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael lleisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyh nhw.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae gan y fwrdeistref sirol gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol, ac mae ystod eang o gyfleoedd diwylliannol. Mae cynlluniau i gryfhau addysg Gymraeg a dwyieithog mewn lleoliadau addysg cyn-ysgol ac addysg amser llawn. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a fydd yn cefnogi amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gwneud hynny bob dydd.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Mae'r gwaith a gyflwynir yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at y byd ehangach mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, bydd y buddsoddiad technolegol trwy ein rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn trawsffurfio sut mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at ddysgu, gan ddod â phrofiadau o bob rhan o'r byd i ystafelloedd dosbarth CNPT, ochr yn ochr â meithrin sgiliau addas ar gyfer marchnadoedd llafur y dyfodol.

Cynnydd Cyffredinol: Cyflwynwyd 27 o gamau, h.y. camau gweithredu i'n helpu i gyflawni blaenoriaethau gwelliant **Amcan Llesiant Un**, ac o'r rheiny mae 23 yn cyrraedd y nod, 2 yn agos at hynny, a 2 heb gyrraedd y nod. Isod ceir gwybodaeth fanylach ynghylch ein perfformiad yng nghyswllt pob cam.

Amcan Llesiant 1 Gwella Llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyaflu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu.

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.1.1 Byddwn ni'n rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn ein cynllun gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gan gynnwys rhoi rhaglenni Llywodraeth Cymru ar waith a	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd ymgyrch hyrwyddo genedlaethol gan Lywodraeth Cymru o fis Hydref 2019. Ers y lansi, rydym wedi cynnal digwyddiadau rheolaidd i ddarparwyr i'w hannog i gofrestru a'u gwneud yn ymwybodol o'r broses a newidiadau polisi. Gwelsom fwy na 1,000 o rieni sy'n gweithio ar draws Castell-nedd Port Talbot yn gwneud cais llwyddiannus am y 'Cynnig Gofal Plant i Gymru' (datganiad i'r wasg). Mae'r Cynnig yn helpu i gefnogi rhieni sy'n gweithio trwy leihau'r straen ar incwm y teulu a helpu i sicrhau nad yw gofal plant yn rhwystr i dderbyn cyflogaeth. Yn ystod 2019-20, cymeradwywyd 648 o geisiadau am y cynnig gofal plant ac mae 140 o ddarparwyr gofal plant ar draws CNPT (gan gynnwys rhai mewn awdurdodau cymdogol) sydd wedi cofrestru i ddarparu'r cynnig gofal plant ar gyfer plant Castell-nedd Port Talbot. Ar gyfartaledd mae 585 o blant yn cael mynediad i le gofal plant bob mis. Talwyd cyfanswm o £1.934 miliwn i ddarparwyr gofal plant am 429,834 awr o ofal plant Cefnogwyd 23 o Warchodwyr Plant a 2 Sesiwn Rhieni a Phlant Bach trwy ddefnyddio 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyafu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu.

Cam	Cynnydd	Statws CAG
defnyddio cyllid perthnasol i gynyddu argaeledd ac ansawdd gofal plant	<p>arian grant.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cefnogwyd 43 o leoliadau i gyflawni'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy (HSPSS) ac estyn y cynllun i 6 lleoliad gofal plant arall. Cynyddwyd y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau. Rydym yn cwblhau'r gwerthusiadau defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad gofal plant, ac yn cynnig sesiynau stori Cymraeg a phe cynnau adnoddau stori i bob darparwr. Mae cynllun dysgu Cymraeg CAMAU ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant yn dal i gael ei hyrwyddo. Rydym wedi ehangu ein rhaglen hyfforddi ar gyfer ein cyflogeion, ac mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant yn dal yn uchel ar yr agenda. <p>KPI: Ar 31 Mawrth 2020 roedd 2,335 o leoedd gofal plant diwrnod llawn yn cael eu darparu ar draws y fwrdeistref. Er bod hyn yn is na'n targed o 2,400 ar gyfer 2019-20, mae'n gynydd o 107 o leoedd ers mis Mawrth 2019.</p>	
1.1.2 Byddwn ni'n adolygu'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar ac ysgolion i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu i	<p>I gefnogi proses plant ifanc yn pontio i'r ysgol, mae cyfarfodydd pontio Dechrau'n Deg rhwng darparwyr gofal plant ac ysgolion yn cael eu cynnal bob tymor yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae cyfarfodydd pontio wedi ennill eu plwyf mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.</p> <p>Mae is-grŵp pontio yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r trefniadau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Dechrau'n Deg, yr Uned Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac Addysg, yn ogystal â sefydliadau gofal plant troswaol.</p> <p>Mae Traciwr Cynnydd newydd wedi cael ei gyflwyno i alluogi'r staff i fonitro datblygiad plant,</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyaflu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu.

Cam	Cynnydd	Statws CAG
gefnogi proses plant yn pontio i'r ysgol	ac mae modd rhannu hwn gydag ysgolion lle bo hynny'n briodol.	
1.1.3 Byddwn ni'n cyflwyno rhaglen genedlaethol ac ymyrraeth wedi'i thargedu trwy raglen Bookstart i gyflwyno llythrennedd a rhifedd i fabanod a phlant ifanc	<p>Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno amrywiaeth o waith ymyrraeth llythrennedd wedi'i dargedu mewn partneriaeth â 9 ysgol, gan ddarparu 206 o sesiynau ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Nhymor yr Hydref 2019.</p> <p>Ers penodi ein Cydlynnydd Bookstart newydd ym mis Medi 2019 rydym wedi ychwanegu 143 o sesiynau mewn Llyfrgelloedd/Llyfrgelloedd Cymunedol a 7 mewn cylchoedd chwarae.</p>	Gwyrdd
1.1.4 Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod ni'n targedu cefnogaeth at y plant hynny sydd	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd digwyddiad gweithdy ar y 1,000 diwrnod cyntaf ar gyfer rheolwyr gwasanaeth allweddol a phartneriaid ym mis Mehefin 2019. Cyn y digwyddiad a drefnwyd, ymgysylltwyd â'r rhieni ar-lein er mwyn deall profiadau rhieni yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf eu plentyn. Ymatebodd dros 230 o rieni i'r holiadur ar-lein ac roedd eu hadborth yn llywio'r gweithdy. Yn dilyn y gweithdy a'r adborth cynhyrchwyd cynllun cyflawni er mwyn symud ymlaen gyda chymau gweithredu a nodwyd. Bydd y rhain yn ffurfio rhan o raglen Integration Pathfinder y Blynyddoedd Cynnar. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyafu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu.

Cam	Cynnydd	Statws CAG
mewn perygl o ddiodef profiadau niweidiol yn ystod eu plentynod, yn 1,000 diwrnod cyntaf eu bywydau	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd digwyddiadau mapio yn CNPT ac Abertawe yn ystod mis Rhagfyr 2019 i nodi'r gwasanaethau cefnogi oedd ar gael ac i ddeall y broses sy'n cysylltu gwasanaethau a haenau o anghenion. Cynhaliwyd digwyddiad rhanbarthol dilynol ym mis Mawrth 2020 i adolygu'r mapio ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol. Cynlluniwyd grwpiau ffocws gyda rhieni ar gyfer diwedd Mawrth, ond mae'r rhain wedi gorfod cael eu gohirio tan 2020-21 oherwydd pandemig COVID-19. Mae cais ariannu rhanbarthol ar gyfer cyllid integreiddio Blynyddoedd Cynnar wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn i fodelau peilot gael eu profi. Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc wedi cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn a'i addasu yn dilyn adborth ymgynghori. Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd yn cael ei symud ymlaen ar gyfer ei gymeradwyo gan yr Aelodau yn ystod 2020-21. 	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.2 Bydd teuluoedd sy'n cael trafferth i ddarparu rhianta da ar gyfer eu plant yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.2.1 Targedu cefnogaeth ymyrraeth gynnar ac ataliaeth i'r teuluoedd sydd angen hynny, gan sicrhau gwell aliniad lleol a dull cydlynus o ddarparu cefnogaeth i ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod	<ul style="list-style-type: none"> Oherwydd bod y Swyddog Perfformiad a Monitro Teuluoedd yn Gyntaf wedi gadael ei swydd i ymgymryd â secondiad, ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau monitro yn chwarter 1. Fodd bynnag, cafodd gwybodaeth fonitro ei chasglu a'i choladu ar draws y rhaglen. Cynhaliwyd ymweliadau monitro gyda'r holl brosiectau yn ystod chwarter 2 a chwarter 4. Mae fideo yn cofnodi profiadau defnyddwyr o rai o'r gwasanaethau wedi cael ei lunio er mwyn i ni fedru deall yn well effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar deuluoedd ac unigolion. Mae hyn wedi cael ei rannu gyda darparwyr gwasanaeth a'n Grŵp Monitro a Chyflawni. Ar hyd 2019-20, cafwyd 1,067 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, gyda mwy na 1,200 o unigolion yn cael mynediad at gefnogaeth. O'r 1,112 o gyfranogwyr sydd wedi cau yn ystod y flwyddyn, caeodd 680 gyda chanlyniad llwyddiannus (60%). Nid oedd 26% o'r cyfranogwyr wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth oedd yn cael ei gynnig, neu roeddent wedi optio allan. Teimlai 88% o'r cyfranogwyr fod y gwasanaeth roedden nhw'n cael mynediad iddo o fudd iddyn nhw, gyda 91% yn teimlo eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a nodwyd ganddynt. Mae'r canlyniadau'n amrywio ac yn cael eu cytuno gyda theuluoedd neu unigolion ar ddechrau'r gwasanaeth. Gall y rhain gynnwys cynyddu hyder, meithrin perthnasoedd teulu, datblygu strategaethau rhianta, neu deimlo eu bod mewn sefyllfa well i fedru ymdopi â phwysau teuluol Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda phartneriaid i ddatblygu dull mwy cydlynus o ddarparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar, yn arbennig rhwng gwasanaethau ieuchyd 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.2 Bydd teuluoedd sy'n cael trafferth i ddarparu rhianta da ar gyfer eu plant yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	ac awdurdod lleol. Bydd modelau cyflawni yn cael eu peilota trwy waith Integration Pathfinder y Blynnyddoedd Cynnar. Mae cais am gyllid i ddatblygu'r rhain wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.3.1 Byddwn ni'n sicrhau bod cymunedau yn cael eu grymuso i gryfhau eu gallu eu hunain i wella iechyd a llesiant a bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyfranogi'n	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi parhau i gefnogi 12 Clwb Ieuenctid yn y gymuned, sy'n darparu mynediad i bobl ifanc 11-18 oed at ystod o weithgareddau addysgiadol, cymdeithasol a hamdden, yn eu plith teithiau blynnyddol i barc thema a sglefrio iâ. Rydym hefyd wedi cefnogi clybiau ieuenctid sector gwirfoddol. Amharwyd ar y ddarpariaeth clybiau ieuenctid ym mis Mawrth 2020 oherwydd COVID-19 (mae clybiau o'r fath yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o safbwynt gwneud gwahaniaeth i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y bobl ifanc). Rydym ni'n parhau i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol ar draws y fwrdeistref. Cyflwynwyd 4 gwersyll chwaraeon cwbl gynhwysol wythnos o hyd ac un gwersyll wythnos i rai ag anabledd eleni. Rydym wedi paratoi a chyflwyno rhaglen chwaraeon 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
llawn mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol	cymunedol o weithgareddau i blant ag anableddau gael mynediad iddi. Mae'r swyddogion yn gofalu bod y plant yn cael mynediad i gyfleoedd yn yr ysgol a bod y sesiynau a'r clybiau yn gwbl gynhwysol.	
1.3.2. Byddwn yn parhau â'n Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol gan ad-drefnu er mwyn darparu cyfleoeddau dysgu ac addysgu ar gyfer yr 21ain ganrif a bodloni safonau 'diogel drwy ddyluniad'	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r prosiectau Adeiladu sy'n rhan o Fand A bellach wedi'u cwblhau ac mae gwaith wedi cychwyn ar brosiectau Band B. Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer Cefn Saeson (datganiad i'r wasg) yn gwneud cynnydd da. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar brosiect adnewyddu gwerth £1.6m yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe – datganiad i'r wasg Rydym ni wedi cael cadarnhad ynghylch ysgol gynradd newydd Abbey Primary – datganiad i'r wasg. Fodd bynnag, oherwydd cymhlethdodau annisgwyl gyda'r gwaith sylfeini mae costau'r prosiect yn uwch na'r gyllideb. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar opsiynau peirianeg rhatach. Bydd hyn yn golygu bod y terfynau amser a gynlluniwyd yn llithro. Mae cytundeb contract wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer YGG Ystalyfera ac mae'r cais 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>cynllunio ffurfiol wedi cael ei gyflwyno. Mae bwriad i ddechrau gwaith ar ddymchwel y bloc addysgu presennol ym mis Awst 2020.</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygwyd cynigion fel rhan o arfarniad opsiynau ar gyfer adeilad ysgol gynradd newydd sydd i'w adeiladu yn ardal Cwm Tawe ac mae achos busnes amlinellol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar (ym mis Awst 2020). Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ganfod ardaloedd yn y fwrdeistref ar gyfer datblygu addysg Gymraeg, ond mae COVID-19 wedi effeithio ar y gwaith hwn yn ystod chwarter olaf 2019-20. Cwblhawyd y ddau gynllun i leihau maint dosbarthiadau yn YGG Castell-nedd ac Ysgol Gynradd y Gnoll, yn brydlon ac o fewn y gyllideb. <p>KPI: Y sgôr capio 9 fesul disgybl ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ym mlwyddyn academiaidd 2018-19 oedd 342, fymryn yn is na'n targed o 343, ond rywfaint yn uwch na sgôr y flwyddyn academiaidd flaenorol o 341.</p> <p>KPI: roedd canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn 94.02% ym mlwyddyn academiaidd 2018-19, sy'n ostyngiad bychan ar ffigur 2017-18 (94.14%) a rhyw fymryn yn is na'n targed o 95%.</p> <p>KPI: roedd canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn 93.46% ym mlwyddyn academiaidd 2018-19, sy'n ostyngiad bychan ar ffigur 2017-18 (93.48%) a rhyw fymryn yn is na'n targed o 94.5%.</p>	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.3.3 Byddwn yn datblygu ymhellach ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ragor o'n plant a'n pobl ifanc gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddisgyblion ddod yn fwy rhugl wrth siarad Cymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol i gynllunio ar gyfer y rheoliadau WESP newydd a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2020. Mae'r rheoliadau newydd yn gofyn bod awdurdod lleol yn datblygu cynllun 10 mlynedd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2021. Gallai pandemig COVID-19 gael effaith ar ein terfynau amser arfaethedig yn 2020-21. Mae Ysgol Ystalyfera Bro-Dur a'r ysgolion sy'n ei bwydo yn parhau i gydweithio ar ystod o weithgareddau yn eu cynllun i hyrwyddo addysg Gymraeg Ffurfiwyd is-grŵp marchnata i ddatblygu gwefan CNPT, a fydd yn helpu i hyrwyddo addysg Gymraeg. Cyfarfu'r is-grŵp ddiwethaf ar 16 Ionawr 2020. Er bod y wefan wedi cael ei diweddaru, mae bwriad i wneud gwaith pellach i wella'r wefan. Bydd cyfyngiadau symud COVID-19 yn golygu bod oedi gyda'r cynnydd o ran gwella'r wefan. Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19 rydym wedi sefydlu rhwydwaith cefnogi ar blatfform digidol, ar y cyd â phartneriaid allweddol eraill, ar gyfer rhieni mewn cartrefi di-Gymraeg. Rydym hefyd wedi darparu adnoddau i gefnogi disgyblion, e.e. sgiliau llafar trwy 'flip-grid', gweminarau etc. <p>KPIs:</p> <p>Aseswyd 16.63% o ddisgyblion yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ym mlwyddyn academiaidd 2018-19. Mae hyn fymryn yn is na'r targed o 16.7% ond yn uwch na ffigur y flwyddyn academiaidd flaenorol, sef 15.78%.</p> <p>Bu 11.4% o'r disgyblion yn astudio Cymraeg iaith gyntaf ym mlwyddyn 11 ym mlwyddyn academiaidd 2018-19, sydd fymryn o dan y targed o 11.5% ac ychydig yn is na ffigur y</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	flwyddyn academiaidd flaenorol, sef 12.85%.	
1.3.4 Byddwn ni'n peilota model Cymuned Plant yn ward Gorllewin Sandfields	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r prosiect bellach yn rhan o Grŵp Arloesi Llywodraeth Cymru, sy'n rhannu arfer gorau gydag Awdurdodau Lleol eraill, ac mae'r cyfarfodydd i gychwyn ddiwedd Medi 2020. Ym mis Mawrth 2020, roedd 208 o bobl wedi ymgysylltu â'r broses, a 98 o bartneriaid wedi ymgysylltu â'r prosiect, gyda'r niferoedd yn dyblu yn achos mynychwyr rheolaidd. Mae 48% o'r teuluoedd sy'n bresennol yn dod o Orllewin Sandfields, a 52% yn dod o'r tu allan i ardal Gorllewin Sandfields. Yn ystod pandemig COVID-19 rydym ni'n cael negeseuon a galwadau rheolaidd gan rai teuluoedd. Cychwynnodd y Grŵp Tadau yn Ionawr 2020 ac wrth i'r niferoedd gynyddu'n iach roedd grŵp ychwanegol yn cael ei drafod cyn COVID-19. Mae hyn yng ngofal ein gweithiwr Tadau Dechrau'n Deg. Sefydlwyd Hybiau Cefnogi Symudol ym mis Chwefror 2020 mewn ysgolion yng Ngorllewin Sandfields. Mae gwasanaethau mewnol ac allanol CNPT yn cynnwys 'paned a sgwrs' yn ôl rota dreigl. Y nod yw gwella a chynyddu ymgysylltiad y gymuned ochr yn ochr â chodi proffil y gymuned plant. Cyflawnir hyn trwy gynyddu ymwybyddiaeth teuluoedd o'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Trefnwyd gweithdai ar gyfer Mawrth 2020 i Grwpiau Gweithrediadol a Strategol, i ddangos Gweledigaeth Gweithredu'r Gymuned Plant ochr yn ochr â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Llesiant. Oherwydd COVID-19 cafodd y rhain eu gohirio ac mae bwriad i'w haildrefnu yn yr hydref. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<ul style="list-style-type: none"> Mae cynlluniau i weithio gyda Chymorth i Fenywod Port Talbot, Grŵp Amenedigol Bae Abertawe wedi'u hatal dros dro, ac rydym yn gobeithio ailafael yn yr hydref. Dechreuodd Gwasanaeth Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASD) Castell-nedd Port Talbot gynnal eu rhaglen gyda'r peilot hwn, gan ymgorffori rhai teuluoedd o'r ysgolion yn yr ardal yn achos rhieni/gofalwyr plant oedd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth. 	
1.3.5 Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol yng nghyswllt dyletswyddau newydd statudol a grëwyd gan Lywodraeth Cymru er budd i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Lleol wedi'i gostio'n llawn i sicrhau bod y blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn cael eu cyflawni'n llwyr. Mae cynnydd da yn digwydd yn erbyn yr holl gamau gweithredu a nodwyd ac mae monitro parhaus ar waith. Adolygwyd y strwythur staffio i sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i baratoi'n llawn i ymateb i alwadau diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd 95% o'r swyddi wedi'u llenwi, ond oherwydd COVID-19 mae'r broses recriwtio wedi cael ei hatal dros dro a bydd yn ailgychwyn yn nhymor yr hydref. Mae bron yr holl Gydlynwyr ADY a Phenaethiaid wedi derbyn hyfforddiant ar Arferion Person-Ganolog (PCP). Mae'r holl swyddogion wedi cwblhau eu hachrediad fel hyfforddwyr PCP. Mae'r capasiti cynyddol hwn wedi galluogi nifer ehangach o ysgolion i gael mynediad i hyfforddiant a chefnogaeth, ac mae nifer uwch o staff addysgu a chymorth bellach wedi cael hyfforddiant. Datblygwyd mecanweithiau sicrhau ansawdd a'u rhoi ar waith a byddant yn ailgychwyn yn nhymor yr hydref, ar ôl cael eu hatal dros dro oherwydd bod ysgolion ar gau yn sgîl 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>COVID-19. Mae adolygiadau blynyddol wedi bod yn destun mesurau sicrhau ansawdd, ac mae adborth i ysgolion a hyfforddiant pellach i gael eu darparu yn ystod tymor yr hydref. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol, fel rhan o Raglen Trawsffurfio ADY, i sicrhau cysondeb yn ein dull gweithredu a mwy o waith ar y cyd â chydweithwyr Gwella Ysgolion.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ymarferiadau sicrhau ansawdd wedi dangos gwelliant o ran cynnwys Adolygiadau Blynyddol a Phroffiliau Un Dudalen fel ei gilydd, ac mae'n amlwg bod ymwneud disgyblion a rhieni â nhw yn dod yn fwy cyffredin. 	
1.3.6 Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ymgysylltu â'u dysgu a bod pob ysgol yn symud tuag at hunanwelliant	<ul style="list-style-type: none"> Mae gennym strategaeth arweinyddiaeth sefydledig sy'n cysylltu â'r rhaglen arweinyddiaeth ranbarthol. Mae athrawon newydd gymhwyso a phenaethiaid profiadol yn elwa o raglenni cefnogi a datblygu rhanbarthol. Bellach mae pob pennaeth newydd yn cael mynediad i'r rhaglen genedlaethol ar gyfer penaethiaid newydd. Mae 11 ysgol o CNPT wedi ffurfio partneriaethau gydag ysgolion yn rhanbarth ERW, gyda ffocws ar gryfhau prosesau hunanwerthuso. O ganlyniad i bandemig COVID-19 mae camau gweithredu eraill a gynlluniwyd yn y Strategaeth Arweinyddiaeth wedi'u hatal ar hyn o bryd. Trwy strategaeth sefydledig o gefnogaeth, mae bron yr holl ysgolion yn awr yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae gweithgareddau hunanwerthuso bellach yn nodi blaenoriaethau gwelliant yn fwy cywir. Mae cynllunio datblygiad ysgolion yn fwy manwl gywir ac mae bron yr holl ysgolion yn gallu arddangos effaith glir. Ataliwyd y gwaith hwn dros dro o ganlyniad i gyfyngiadau symud COVID-19. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<ul style="list-style-type: none"> Mae llawer iawn o waith wedi cael ei gyflawni gan y gwasanaeth Cynhwysiad yng nghyswllt cefnogi llesiant disgyblion. Ers cyfyngiadau symud COVID-19, mae galwadau ffôn rheolaidd a dysgu ar-lein wedi bod o gymorth i gadw mewn cysylltiad â disgyblion. Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus (VLS) wedi cael ei sefydlu, ac roedd corff llawn o staff yno erbyn mis Medi 2019. Y Gwasanaeth hwn sydd â'r cyfrifoldeb o gefnogi a chadw golwg ar grwpiau o ddysgwyr bregus megis Ffoaduriaid, Sipsiwn a Theithwyr, Lleiafrifoedd Ethnig, Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) a Gofalwyr Ifanc, yn ogystal â dysgwyr y mae eu teuluoedd yn rhan o'r lluoedd arfog. Mae VLS wedi cefnogi 11 o ddysgwyr a 2 riant yn ystod 2019-20 i gyflawni 13 o gymwysterau iaith gyntaf yn ystod y flwyddyn honno (Thai IGCE, Mandarin TGAU, Arabeg TGAU, Arabeg Lefel Uwch). Mae staff y Gwasanaeth wedi cadw mewn cysylltiad â'r holl deuluoedd a gefnogir trwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol a thros y ffôn. 	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.4.1 Byddwn ni'n datblygu mwy o integreiddio o ran y trefniadau gwaith rhwng Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion	<p>Mae ffurflen 'Atgyfeirio Sengl' bellach wedi'i llunio'n derfynol at ddefnydd Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion. Deilliodd y ffurflen Atgyfeirio hon o gydweithio rhwng croestoriadau o staff Gwasanaethau Cymdeithasol a lechyd. Mae'r ffurflen yn hwyluso'r cyfle i grisialu pryderon diogelu oedolion (oedd yn flaenorol yn cael eu cofnodi ar wahân). Lansiwyd y ffurflen atgyfeirio sengl ar 4 Chwefror 2020 a dechreuodd gael ei defnyddio ar draws asiantaethau partner.</p> <p>Mae lansiad ffurfiol y 'Pwynt Cyswllt Sengl' ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant, oedd i'w gynnal ar 1 Ebrill 2020, wedi bod yn destun oedi oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, mae gwaith wedi parhau i ddigwydd er mwyn integreiddio'r gwasanaeth drws ffrynt gymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'r gwasanaeth wedi symud i rif ffôn sengl integredig ar gyfer ymateb i'r holl atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Unwaith mae'r trefniadau gweithio gartref wedi sefydlogi, byddwn hefyd yn symud ymlaen i gyfeiriad e-bost sengl i gynrychioli integreiddio'r gwasanaeth drws ffrynt. Un o ganlyniadau gweithio'n fwy integredig fu cwblhau asesiadau cynhwysfawr yn brydlon.</p> <p>KPI: Cwblhawyd 98.76% o asesiadau plant yn brydlon yn ystod 2019-20 o gymharu â 94.93% yn 2018-19. Rydym wedi rhagori ar ein targed o 94% ar gyfer 2019-20. Rydym yn dal gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 88.9% (data diweddaraf 2018-19).</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.4.2 Gyda'n partneriaid, byddwn ni'n datblygu ymhellach ein Strategaeth Cefnogi Teuluoedd i sicrhau bod yr ystod a'r ansawdd cywir o wasanaethau ar gael i ymateb i'r angen	Roeddem wedi bwriadu cynnal ymarferiad craffu ar y llwyth achosion er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda'r garfan gywir o blant, y bernir eu bod 'Ar Gyrion Gofal', fel bod modd targedu'r garfan benodol hon â dull o gyflwyno gwasanaeth sydd â mwy o ffocws. Fodd bynnag, er bod rheolwyr wedi cwrdd a sefydlu methodoleg ar gyfer symud ymlaen gyda'r gwaith hwn, oherwydd gwaith blaenoriaeth arall yn y gwasanaeth, gohiriwyd y cam hwn tan 2020-21.	Coch
1.4.3 Byddwn ni'n ymgymryd â gwaith sydd â ffocws gyda phartneriaid er mwyn gwella mynediad pobl ifanc sydd â iechedd meddwl/llesiant	Buom ni'n gwneud gwaith pellach i ddatblygu dull gweithredu amlasiantaeth oddi mewn i'r ddarpariaeth "Drws Ffrynt" i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dod atom ni gyda phroblemau iechedd meddwl/llesiant emosiynol. Bellach mae dau weithiwr CAMHS (Gwasanaethau Iechedd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) rhan amser yn gwneud gwaith Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) ar draws SPOC a'r Tîm o Amgylch y Teulu.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog

Cam	Cynnydd	Statws CAG
emosiynol gwael at y gefnogaeth gywir		
1.4.4 Byddwn ni'n datblygu ein gwasanaeth maethu mewnol ymhellach er mwyn sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau, gan gynnwys datblygu trefniadau ar gyfer Gofalwyr Gwarcheidiaeth Arbennig	<p>Buom ni'n dathlu cyfraniad neilltuol gofalwyr maeth yng Nghastell-nedd Port Talbot trwy gynnal digwyddiad i gydnabod rôl bwysig gofalwyr maeth yn helpu plant a phobl ifanc sy'n fregus. Cyflwynwyd cyfanswm o 23 o wobrau i ofalwyr maeth sengl a chyplau am eu cyfnodau o wasanaeth, oedd yn amrywio o 1 flwyddyn hyd at 30 mlynedd o wasanaeth.</p> <p>Rydym wedi datblygu'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn unol â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol newydd. Cyflwynwyd hyfforddiant ar y fframwaith newydd i'r tîm maethu a'r panel maethu. Mae'r holl newidiadau angenrheidiol bellach wedi'u gweithredu. Lansiodd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2019. Roedd bwriad i'r gwaith o adolygu trefniadau'r Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2020, gyda'r argymhellion i'w gweithredu yn Chwarter 1af 2020-21. Fodd bynnag, yn ystod y gwaith o adolygu trefniadau'r SGOs, nodwyd ffrydiau gwaith pellach yr oedd angen ymgymryd â nhw er mwyn bwydo i mewn i'r adolygiad cyffredinol. Gwaetha'r modd, oherwydd effaith COVID-19, bu'n rhaid gohirio'r gwaith hwn, a bydd yn ailgychwyn yn haf 2020. Rhagwelir y bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni.</p> <p>KPI: Cynnydd bychan yng nghanran y plant mewn gofal a symudodd 3 gwaith neu fwy o</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	7.44% yn 2018-19 i 7.77% yn 2019-20. Arhosodd nifer y plant a symudodd 3 gwaith neu fwy ar 23, ond mae'r ganran gyffredinol yn uwch yn 2019/20 oherwydd bod nifer is o blant yn gyffredinol yn derbyn gofal yn 2019-20. Pennwyd targed o 7.5% ar gyfer 2019-20.	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.5.1 Bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gael lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfnodau hyfforddiant yn ei weithlu ei hun, gan ddarparu cyfleoedd	<p>Yn ystod 2019-20 darparodd y Cyngor y cyfleoedd canlynol:</p> <p>48 lleoliad gwaith; 33 Prentisiaeth; 1 cyfnod i Hyfforddai a 3 chyfle ar gyfer pobl ifanc Llwybr-16.</p> <p>Darparwyd cyfanswm o 85 o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gan y Cyngor yn 2019-20 o gymharu a 120 o leoliadau y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo'r rheidrwydd i leoliadau gwaith ddarparu cyfleoedd i'n Plant</p>	Ambr

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch

Cam	Cynnydd	Statws CAG
yn arbennig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	<p>sy'n Derbyn Gofal yn arbennig, fel Rhieni Corfforaethol, trwy weithio gyda rheolwyr i gynorthwyo yn y gwaith hwn, e.e. lleoliadau arsylwi, lleoliadau undydd a lleoliadau hirdymor.</p> <p>KPI: Mewn perthynas â'n Dangosydd Perfformiad Allweddol, sef nifer y prentisiaid ar brentisiaethau ffurfiol cydnabyddedig fesul 1,000 o gyflogeion, sydd hefyd yn ddangosydd perfformiad cenedlaethol, ein ffigur perfformiad ar gyfer 2019-20 yw 5.44 o brentisiaethau fesul 1,000 o gyflogeion. Mae hyn yn is na'n ffigur targed o 10 fesul 1,000 o gyflogeion. Darparwyd 71 o brentisiaethau yn 2018-19 o gymharu â 33 yn 2019-20. Y rheswm am hynny yw'r nifer fawr o gyflogeion oedd ym mlwyddyn olaf eu llwybr galwedigaethol ac a gwblhaodd eu prentisiaeth yn 2018-19.</p>	
1.5.2 Bydd Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion yn cefnogi'r bobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> Parhaodd y Gweithwyr Ieuenctid Etifeddiaeth i gael eu lleoli yn yr holl ysgolion uwchradd, yn cefnogi pobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o golli cysylltiad. Trwy gydweithio'n agos ag ysgolion, Gyrfa Cymru, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, gall y gweithwyr ieuenctid sicrhau bod eu llwyth achosion o bobl ifanc yn ymwybodol o'r holl opsiynau sydd ar gael iddyn nhw. Daliodd y Timau Cadw mewn Cysylltiad, Cam Nesa a Chymunedau am Waith ati i weithio gyda phobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET ac maent wedi cynnig ystod o gefnogaeth ac ymyriadau sydd wedi helpu pobl ifanc i symud yn nes at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ac i mewn iddynt. Cefnogodd Prosiect Cam Nesa 150 o bobl ifanc i symud i gyflogaeth, sy'n nifer uwch na'u targed o 90. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch

Cam	Cynnydd	Statws CAG
(NEET) i'w helpu i gyflawni cyrchfan cadarnhaol	<ul style="list-style-type: none"> Daliodd y Gweithwyr Ieuenctid ati hefyd i gefnogi pobl ifanc yn ôl yn yr ysgolion ar ôl gorffen y gefnogaeth bontio, a ddaeth i ben ar 31 Hydref. Yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19 mae'r bobl ifanc wedi cael eu cefnogi o bell â'r holl waith uchod. Yn rhanbarthol, sicrhawyd arian ychwanegol (£35 miliwn) i gynnal prosiect Cynnydd tan fis Rhagfyr 2022 ac rydym yn amcangyfrif y byddwn yn gweithio gyda 7,500 o bobl ifanc ar draws De-orllewin Cymru. Nod y prosiect yw gweithio gyda'r bobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET. <p>KPI: Canran yr ymadawyr Blwyddyn 11 sydd heb fod mewn addysg, chyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yw 2.15%, sy'n is na'n targed o 3.2% ar gyfer y flwyddyn.</p>	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.5.3 Byddwn ni'n adeiladu ar ein gwaith fel Rhieni Corfforaethol i sicrhau bod pob person ifanc yn cael llety a chefnogaeth addas wrth adael gofal y cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Mae contractau newydd yn eu lle ar gyfer cyflwyno gwasanaethau llety â chymorth a gwasanaethau argyfwng ar gyfer ymadawyr gofal i sicrhau bod darpariaeth addas a llety brys ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae adolygiad comisiynu o'r gwasanaethau seibiant ac argyfwng i blant ar waith er mwyn pennu'r gofynion comisiynu i'r dyfodol. Mae archwiliad contract wedi cael ei gynnal ac mae contractau newydd wedi cael eu drafftio ar gyfer yr holl drefniadau contractiol presennol, lle bo hynny'n briodol. Mae comisiynu wedi gweithio gyda Hillside i roi trefniadau contractiol newydd yn eu lle ar gyfer y gwasanaethau maen nhw'n eu prynu. Mae monitro contractau rheolaidd yn digwydd yn achos yr asiantaethau maeth annibynnol a phreswyl i blant mae gennym ni leoliadau ynddynt. Cymeradwywyd Cynllun Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2019 – 2022 gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant y Cabinet ar 2 Mai 2019. 	Gwyrdd
1.5.4 Byddwn ni'n adolygu ein Strategaeth Ymgysylltu â leuenctid	<ul style="list-style-type: none"> Mae Grŵp y Strategaeth Ymgysylltu â leuenctid (YES) a Grŵp Amlasiantaeth NEETS yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r hyn sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc yn strategol ac yn weithredol, gyda'r nod o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae gwaith yn parhau i ganfod y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg uchaf o fod yn NEET wrth adael yr ysgol â dull amlasiantaeth o'u hadnabod yn gynnar ac ataliaeth. Mae Proffil Asesu Sefyllfa Fregus newydd ar gyfer NEET yn cael ei beilota Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion i helpu i ganfod y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>uchaf o golli ymgysylltiad a dod yn NEET. Mae'r bobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg uchaf yn cael eu cefnogi o bell yn ystod pandemig COVID-19.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cydlynnydd Cynnydd Ymgysylltu yn parhau i dracio a monitro'r gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16. • Daliodd y Gwasanaeth Ieuenctid ati i gyflwyno amrywiol gyrsiau wedi'u hachredu a mesur y canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid. <p>KPI: Canran y bobl ifanc 11 - 19 oed sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuenctid – ymgysylltodd 45.75% (6,754) o bobl ifanc â'r gwasanaeth ieuenctid eleni o gymharu â 35% (5,047) y flwyddyn flaenorol. Rhagorwyd ar ein targed o 42% ar gyfer y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn wedi digwydd yn sgîl y gwaith mewn ysgolion yn cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc.</p>	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyh nhw

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.6.1 Bydd y Cyngor yn adolygu ei ddull o ymdrin â Hawliau Plant, gan sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn cael ei wreiddio ar draws ei holl wasanaethau a swyddogaethau	<p>Mae ysgolion wedi cael eu cefnogi i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn fframwaith ar gyfer llesiant yn eu hysgolion, lansiwyd hynny yn y Gynhadledd Llesiant ym mis Mehefin 2018.</p> <p>Ar 31 Mawrth 2020, roedd 46 o ysgolion wedi ymrwymo i'r Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau gyda UNICEF, ac mae 29 o'r ysgolion hynny wedi llwyddo i gyflawni'r dyfarniad efydd, a 9 ysgol wedi cyflawni'r dyfarniad arian. Roedd Ysgol Gynradd Blaendulais i fod i gael eu hasesiad aur, ond mae pandemig COVID-19 wedi achosi oedi gyda hyn.</p> <p>Bydd gwaith yn y dyfodol gyda UNICEF yn cael ei ailwerthuso o ystyried yr hinsawdd presennol, a hefyd y newid yn strwythur staff UNICEF.</p> <p>Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau o weithio gyda phlant a phobl ifanc wedi cael ei wreiddio yn yr holl hyfforddiant a gyflwynwyd i ysgolion gan y Tîm Llesiant ac Ymddygiad. Ynghyd â'r ffaith ei fod wedi'i wreiddio mewn cynlluniau a strategaethau ym maes addysg, mae hyn yn cynnwys y Strategaeth Gyfranogiad.</p>	Gwyrdd
1.6.2 Bydd yr holl blant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, neu y nodwyd bod angen gofal a chymorth arnyh nhw, yn cael rhoi	<p>Fe wnaethon ni gwblhau archwiliad ar sut rydym ni'n cynnal holiaduron ac arolygon plant a phobl ifanc. Yn ogystal â choladu themâu ac adborth o'r arolygon presennol i lywio a diweddarau ffocws arolygon yn y dyfodol, byddwn ni'n darparu diben clir i arolygon unigol ac yn eu hyrwyddo ymhlith grwpiau perthnasol o gleientiaid cyn i'r arolwg gael ei gynnal er mwyn mwyaflu'r cyfraddau ymateb. Mae cwestiynau wedi'u teilwra yn cael eu llunio, i gefnogi archwiliadau thematig penodol, a byddant yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r broses lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, ceisiwyd barn plant a phobl ifanc fel rhan o'r Archwiliad Asesu Plant sy'n Derbyn Gofal a Chyswllt Teuluol. Cafodd canfyddiadau'r archwiliad hwn eu</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw

Cam	Cynnydd	Statws CAG
barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw	<p>lledaenu i'r holl dimau a rheolwyr, gan gynnwys y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Tîm Maethu. Roedd arolwg pellach i gasglu barn Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion ar y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn gan eu gweithiwr penodedig hefyd ar waith ar ddechrau pandemig COVID-19, a gwaetha'r modd bu'n rhaid ei ohirio. Fodd bynnag, mae cysylltiadau helaeth bellach yn eu lle rhwng Sicrhau Ansawdd a Thimau Ymgysylltu a Chyfranogiad, ac mae nifer o archwiliadau wedi'u trefnu fel rhan o Raglen Archwilio 2020-2021 sy'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, megis yr ymateb i COVID-19 yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac Archwiliad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid/Camfanteisio.</p> <p>Byddwn ni'n parhau i adolygu a gwneud gwelliannau i sut rydym ni'n casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael rhoi barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.</p>	
1.6.3 Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid Meddwl am y Teulu (Think Family) i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu ffurfio a datblygu gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> Ein Gwasanaeth Ieuenctid a Phartneriaeth Meddwl am y Teulu oedd y cynaf yng Nghymru i ymrwymo i'r Siarter Gyfranogiad Genedlaethol, ac maent wedi derbyn y Nod Barcud Cenedlaethol uchel ei barch am Gyfranogiad yn sgîl eu hanogaeth i blant a phobl ifanc leisio barn ar batrwm a chynllunio'r gwasanaethau maen nhw'n eu cyflwyno. Er mwyn cyflawni'r Nod Barcud, bu'n rhaid i'r gwasanaeth fynd trwy archwiliad i ddangos beth maen nhw'n ei wneud i fodloni'r saith safon genedlaethol a nodwyd yn siarter Plant yng Nghymru. Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, dystysgrif y Nod Barcud mewn seremoni i nodi 30 mlwyddiant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fe wnaethom ni ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth teuluoedd yn gyntaf a'u holi am 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyh nhw

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>y gefnogaeth roedden nhw'n ei derbyn ac yn dal i gael mynediad iddi. Cynhaliwyd cyfanswm o 47 o sesiynau ymgysylltu gyda 78 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Rhoddodd y defnyddwyr gwasanaeth oedd yn cael mynediad i'r gwasanaethau hyn (ar gyfartaledd) sgôr rhwng 21 a 25 allan o 25 am y gefnogaeth roedden nhw'n ei derbyn (roedd y cynnwys yn cwmpasu: nodau'r gwasanaeth, dealltwriaeth o'r gwasanaeth, anghenion defnyddiwr y gwasanaeth, proffesiynoldeb staff a chyfleuster y gwasanaeth).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchwyd fideo ymwybyddiaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae i'w weld yng Nghynllun adran Teuluoedd yn Gyntaf gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. • Fe fuom ni'n ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac yn gofyn eu barn am y blaenoriaethau mewn Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2019-2022 a sut mae modd integreiddio'r cynllun hwnnw â gwasanaethau eraill. Cyflwynwyd 12 o sesiynau ymgysylltu gyda chyfanswm o 164 o blant a phobl ifanc 5-25 oed. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc o glybiau ieuencid, y cyngor ieuencid, grŵp LHDT, grŵp gofalwyr ifanc, myfyrwyr coleg a phlant ysgol (yr oedd gan rai ohonynt anabledd, ac roedd eraill yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, oedd yn golygu nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw). • Etholodd pobl ifanc Castell-nedd Port Talbot eu Maer Ieuencid a'u Dirprwy Faer Ieuencid cyntaf erioed, a fydd yn llais i'r holl blant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol, a hefyd yn cysgodi Maer Castell-nedd Port Talbot mewn nifer o ddyletswyddau Dinesig rhagbenodedig. 	

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyh nhw

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.6.4 Byddwn ni'n annog pobl ifanc i ymarfer eu hawl i bleideisio a chyfranogi mewn democratiaeth leol	Mae cynlluniau i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i hybu democratiaeth (yn arbennig i annog pobl ifanc i ymarfer eu hawl i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth leol) wedi cael eu gohirio oherwydd yr etholiad annisgwyl i Senedd y Deyrnas Unedig yn 2019. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo cyn gynted â phosibl.	Coch

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.7 Bydd plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
1.7.1 Byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Grŵp Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) wedi datblygu gwrs ar Gydberthynas Iach mewn partneriaeth â Calan DVS. Bydd y wers yn cael ei hestyn i'r holl ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot dros amser. Mae'r Grŵp RSE yn monitro'r nifer sy'n manteisio ar hyn a bydd yn mesur cynnydd. Cwm Tawe yw'r ysgol gyntaf i gael y wers, ac mae wedi'i chyflwyno i 162 o ddisgyblion hyd yma Mae Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuencid a Chyswllt Ysgolion Heddlu De Cymru, wedi peilotu dau Weithdy Llesiant gyda disgyblion Blwyddyn 8 yn Ysgol Bae Baglan a Dŵr y Felin. Y nod yw estyn hynny i 	Ambr

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.7 Bydd plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
iach a bod ymddygiad sy'n cam-drin bob amser yn anghywir (Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach)	<p>ysgolion cyfun eraill. Mae'r gweithdai hyn yn cwmpasu Cydberthynas Iach.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae prosiect Sbectrwm Hafan Cymru yn cyflwyno gwersi Cydberthynas Iach mewn 8 ysgol yn CNPT ar hyn o bryd. Bu 1600 o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyfranogi yn nigwyddiad Criw Croch eleni ym mis Mehefin 2019. Ffocws un o'r themâu yn y digwyddiad oedd Cydberthynas Iach. Bu 500 o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn mynychu'r Gweithdai Llesiant 'Dy Fyd Di yw E' a gynhaliwyd yn Ysgol Bae Baglan a Dŵr y Felin. Mae un o'r gweithdai hyn yn troi o gwmpas Cydberthynas Iach. Mae Cymorth i Fenywod Cymru hefyd wedi gofyn i ni beilota eu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â VAWDASV. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, ond bydd yn cynnwys 4 ysgol gyfun, a than oruchwyliaeth y Grŵp RSE <p>KPI: Canran yr ysgolion sydd wedi mabwysiadu rhaglenni addas i roi sylw i drais yn erbyn benywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) – mae'r data diweddaraf ar 31 Rhagfyr 2019 yn adrodd bod 13.64% o ysgolion wedi mabwysiadu rhaglenni addas. Er ein bod wedi gweithio tuag at ein targed blynyddol o 25% ar gyfer 2019-20, bu rhywfaint o oedi wrth estyn hyn oherwydd trefniadau ariannu.</p>	
1.7.2 Byddwn ni'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod sut i gadw'n	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd cyflwyniad Seiberdroseddu a fu'n destun adroddiad i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar 25 Gorffennaf 2019 ac a gafodd ei gymeradwyo. Dosbarthwyd y cyflwyniad i'r holl Benaethiaid i'w ledaenu i'r ysgolion i gyd yn nhymor mis Medi, 2019. Bu 1600 o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyfranogi yn nigwyddiad Criw Croch eleni ym 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 1 Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth Gwelliant 1.7 Bydd plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
ddiogel ar-lein	mis Mehefin 2019, oedd yn cynnwys sesiwn ar ddiogelwch ar y rhynggrwyd a sesiwn ar seiberddoseddu.	
1.7.3 Byddwn ni'n sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn dilyn arferion diogelu trylwyr a chyson	Derbyniwyd dogfennau gweithdrefnau newydd Cymru Gyfan ym mis Hydref 2019. Lansiwyd gweithdrefnau newydd yn CNPT ym mis Rhagfyr 2019 a'u cyflwyno i'r holl reolwyr. Mae'r adolygiad a'r gwaith diwygio i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn parhau o hyd. Mae deunydd hyfforddi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'w ledaenu gan y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Bydd y darn hwn o waith yn parhau ar hyd 2020-21.	Gwyrdd
1.7.4 Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i roi ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar waith	<ul style="list-style-type: none"> Darparwyd cyfres o ymgyrchoedd addysg a hyfforddiant blaengar i 21,287 o ddefnyddwyr ffyrdd oddi mewn i broffil oed Plant a Phobl Ifanc, ac mae'r holl ymgyrchoedd addysg a hyfforddiant i'r proffil oed hwn yn cyrraedd y nod ac yn parhau i dyfu. Roedd ein hymgyrch hysbysebion radio yn canolbwyntio ar deithwyr anodd eu cyrraedd mewn ceir ac yn cynyddu pwysigrwydd gwisgo gwregys diogelwch. Lansiwyd ymgyrch lawn mewn ysgolion cynradd yn hydref 2019. <p>KPI: Mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol diogelwch ffyrdd, mae gostyngiadau sylweddol ar draws y rhan fwyaf o'r mesurau hyn o gymharu â thargedau LIC. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-20, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.</p>	Gwyrdd

Perfformiad Amcan Llesiant 2, blaenoriaethau gwelliant a chamau

Amcan Llesiant 2: Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol: *“Bod pawb yn cyfranogi'n llawn ym mywyd y gymuned – yn gymdeithasol ac yn economaidd”*



Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru lewyrchus	Blaenoriaeth allweddol yw creu/hwyluso cyfleoedd cyflogaeth o safon i bobl leol. P'un a yw hynny trwy fanteisio ar bŵer prynu a dylanwad gweithgareddau uniongyrchol y Cyngor, neu trwy ei rôl creu lleoedd, mae sicrhau twf yn y cyfleoedd cyflogaeth lleol a chefnogi pobl i gael gwaith yn un o brif uchelgeisiau'r Cynllun yma.
Cymru iachach	Mae sicrhau tai gweddus, fforddiadwy yn ffocws arall allweddol, ynghyd â gwaith i sicrhau bod mwy yn cael ei wneud i alluogi pobl sy'n dioddef cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu sydd mewn perygl o ddioddef ymddygiad troseddol ar-lein i'w hamddiffyn eu hunain. Mae cynlluniau penodol ar gyfer cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal mwy arwyddocaol, ond mae ffocws ymarfer yn cael ei newid er mwyn rhoi pwyslais ar hybu annibyniaeth.

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol	
Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:	
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae pwysigrwydd "cymuned" er ei fod yn un o'r nodweddion sy'n croesdorri'r Cynllun, yn cael ei bwysleisio'n arbennig mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn bwriadu diwallu anghenion gofal a chymorth y trigolion mwy bregus.
Cymru gydnerth	Mae pwyslais cryf ar gynaliadwyedd ar draws nifer o'r meysydd blaenoriaeth, a hynny o ran sut rydym ni'n bwriadu lletya ein poblogaeth a sut rydym ni'n ceisio sicrhau dichonoldeb tymor hir ein cymunedau trwy ofalu bod cyfleoedd cyflogaeth o safon ar gyfer pobl leol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae ffocws clir ar waith i ymdrin ag anghydraddoldeb ar draws pobl o bob math gwahanol o gefndir yn y Cynllun, ond hefyd mae ymrwymiad pendant i sicrhau dull gweithredu seiliedig ar hawliau, nid o ran sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol statudol yn unig, ond ar draws holl waith y Cyngor.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Nod y blaenoriaethau yw cryfhau a datblygu cyfalaf cymdeithasol cymunedau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chadernid. Bydd y gwaith hwn hefyd yn sicrhau bod diwylliant unigryw pob cymuned yn cael ei barchu, gan gynnwys gwaith i estyn defnydd beunyddiol o'r Gymraeg a diogelu treftadaeth gyfoethog y fwrdeistref sirol.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Bydd gweithgaredd rheoleiddio a chaffael yn rhoi sylw priodol i ddyletswydd y Cyngor i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrifol. Yn 2018-19, bu'r Cyngor yn gwella ei drefniadau caffael trwy ymuno â'r Rhaglen Cadwyni Cyflenwi Moesegol. Mae hynny'n golygu ymrwymo i sicrhau bod y Cyngor yn edrych yn ofalus ar ffynhonnell ei nwyddau a'i wasanaethau er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n rhai moesegol.

Cynnydd Cyffredinol: nodwyd 31 o gamau, h.y. camau gweithredu i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau gwelliant ar gyfer **Amcan Llesiant 2**, y mae 26 ohonynt yn cyrraedd y nod a 5 yn agos ati. Isod ceir gwybodaeth fanylach ynghylch ein llwyddiant o ran pob cam unigol.

Amcan Llesiant 2 Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.1.1 Cefnogi busnesau presennol a newydd i helpu i greu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol ar gyfer pobl leol	<ul style="list-style-type: none"> Buom ni'n gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu Ardal Gwella Busnes (BID) ym Mhort Talbot wedi pleidlais lwyddiannus ar 7 Tachwedd 2019. Rydym wedi llunio gwefan ar gyfer Ardal Gwella Busnes (BID). Rydym wedi cymeradwyo 74 o geisiadau am arian gan fusnesau lleol sydd eisoes yn bodoli a buddsoddwyr busnes newydd. Neilltuwyd yr arian o'r holl ddyraniadau grant cyn diwedd y flwyddyn ariannol, er gwaethaf cyfyngiadau symud COVID-19 a bod y tîm yn gorfod gweithio gartre. Rhoddwyd cymorth yn achos 728 o ymholiadau busnes, ar ffurf cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol i gwmnïau oedd eisoes yn bodoli. Mae 168 o bobl wedi derbyn cyngor ar gychwyn busnes newydd trwy Glybiau Menter y Cyngor yn ystod 2019/20. Cynhaliwyd cyfanswm o 7 o ddigwyddiadau yng Nghanolfan Fusnes Sandfields ac un yng Nghanolfan Fusnes y Creunant. Oherwydd COVID-19, cafodd y digwyddiad a gynlluniwyd ar gyfer Ystalyfera ei ganslo, ac mae penderfyniad wedi'i wneud bellach i symud ymlaen ar ffurf cyfarfodydd rhithwir nes i'r sefyllfa ganiatáu cyfarfodydd wyneb yn wyneb eto. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogwyd 34 busnes newydd i gychwyn trwy raglen Innov8 y Cyngor. Mae gwaith yn parhau i ymgorffori'r brandio newydd ar wefan newydd Datblygu Economaidd, yn ogystal â deunyddiau hyrwyddo allweddol. Mae'r cynnwys ysgrifenedig ar gyfer y wefan yn agos at gael ei gwblhau, ond mae angen cael hyd i gynnwys ansawdd uchel ar ffurf ffotograffiaeth a fideo busnes o hyd. Mae COVID-19 wedi achosi oedi yn achos y darn yma o waith, felly ein bwriad nawr yw lansio'r wefan newydd ym mis Medi/Hydref 2020. Mae'r sianeli cyfryngau cymdeithasol yn parhau'n wirioneddol weithredol, yn diweddarau busnesau lleol ynghylch materion yn ymwneud â COVID-19. Ar ben hynny mae'r tîm wedi bod yn e-ohebu'n rheolaidd â busnesau lleol, sefydliadau ac aelodau, yn rhoi'r newyddion diweddaraf iddyn nhw. <p>KPI: Rhoddwyd cymorth ar gyfer 273 o ymholiadau cychwyn busnes newydd yn ystod 2019-20. Roedd hyn yn is na'r targed o 350 ar gyfer y flwyddyn oherwydd swydd wag ymhlith y staff yn chwarter 2 a phandemig COVID-19.</p>	
2.1.2 Mwyafu'r cyllid strategol sydd ar gael i ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+ a Chymunedau am	<ul style="list-style-type: none"> Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi cymeradwyo cyllid o £3.8m (£3m o arian grant) ar gyfer darparu cynllun Diweithdra Tymor Byr (STU) Gweithffyrdd+. Bydd cyflwyno'r prosiect yn cychwyn ar 1 Chwefror 2020 ar draws Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Cheredigion, tan fis Awst 2023. Mae hwb cyflogadwyedd cyntaf Port Talbot wedi golygu bod modd cydleoli prosiectau cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+, Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, PaCE, Cam Nesa a Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio. Ers agor yr hwb ym mis Ionawr 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
Waith to assist economically inactive and unemployed i sicrhau a chynnal cyflogaeth	<p>2019, trosglwyddwyd 143 o atgyfeiriadau i'r amrywiol brosiectau cyflogaeth o ganlyniad i 'gerdded i mewn' i'r Orsaf Waith. Mae'r ystafell hyfforddi yn cael ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant cyfranogwyr ar y safle yn ogystal â threfniadau archebu mewnol ac allanol, yn fodd i gynhyrchu incwm.</p> <p>KPIs:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ystod 2019-20, cafodd 434 o bobl oedd yn cyfranogi yn y cynllun Cymunedau am Waith eu helpu i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli, sy'n sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol o 286 am y flwyddyn. Ers hynny mae'r targed hwnnw wedi cael ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2019-20, cafodd 844 o bobl oedd yn cyfranogi yn y cynllun Cymunedau am Waith a Mwy eu helpu i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli, sy'n sylweddol uwch na'r targed o 370 am y flwyddyn. Blwyddyn wych o ran canlyniadau, yn rhagori ar bob targed. Yn ystod 2019-20, cafodd 127 o bobl oedd yn cyfranogi yn y cynllun Gweithffyrdd+ eu helpu i wneud cynnydd yn ôl i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli, gan ragori ar y targed o 64 ar gyfer y flwyddyn. 	
2.1.3 Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dileu swyddi gorfodol i'r graddau mwyaf	Parhaodd Pennaeth Gwasanaeth Grŵp Cynllunio'r Gweithlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur, i gwrdd er mwyn hwyluso ceisiadau am ddileu swyddi, i graffu ar geisiadau am hysbysebu'n allanol, ac i fwyafu a chydlynw'r cyfleoedd ailgyfeirio ar gyfer cyflogaethion sydd 'mewn perygl' o weld eu swyddi'n cael eu dileu. Mae'r Grŵp yn craffu ar bob cais am hysbysebion allanol a, lle bo angen, caiff swyddi eu blaenoriaethu ar gyfer cyflogaethion sydd	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
sy'n bosibl	<p>'mewn perygl'.</p> <p>Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i leiafu dileu swyddi gorfodol a sicrhau dilyniant cyflogaeth i'n cyflogeion trwy ganolbwyntio ar weithgareddau ailgyfeirio, gan ddefnyddio'r Cynllun Dileu Swyddi Gwirfoddol, sydd bellach yn gynllun penagored ers 17 Medi 2019, a chyfyngu ar nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu'n allanol.</p> <p>KPI: Cafwyd 9 achos o ddileu swyddi gorfodol yn ystod 2019-20, sydd yr un fath ag yn 2018-19.</p>	
2.1.4 Mwyafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl leol trwy fanteision cymunedol a chefnogi buddsoddiadau newydd yn y fwrdeistref sirol	<ul style="list-style-type: none"> Daliodd y Tîm Datblygu Economaidd ati i arwain y gwaith o sicrhau bod buddsoddiadau lleol yn cefnogi creu swyddi, wythnosau hyfforddi prentisiaethau, cyfleoedd profiad gwaith a defnyddio busnesau lleol i gyflawni contractau, gan barhau i gwrdd â chontractwyr bob mis er mwyn trafod cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae cynnwys cymalau 'Budd Cymunedol' yn yr holl ddogfennau tendro ar gyfer prosiectau adeiladu ac adfywio sy'n mynd trwy gytundeb Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn helpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl leol, ac rydym yn parhau i fonitro'r buddion i'r gymuned yn y prosiectau hyn. Mae dogfennau tendro Budd Cymunedol hefyd yn cynnwys amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod ohonynt. Mae'r Grŵp Cefnogi Cyflogwyr, trefniant cydweithio rhwng sefydliadau a phrosiectau cefnogi cyflogaeth lleol, megis Gweithffyrdd+, Prosiectau Cynnydd a Cam Nesa, Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy a'r Tîm Datblygu Economaidd yn 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>parhau i gydweithio i helpu pobl leol, y mae llawer ohonynt yn dod o grwpiau difreintiedig, i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth. Er enghraifft, mae'r Grŵp Cefnogi Cyflogwyr wedi cydweithio i ddarparu rhaglen gyflogadwyedd 5 wythnos o'r enw 'Byd Cwbl Newydd'. Mae'r rhaglen hon ar gyfer Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, ac fe gychwynnodd ym mis Medi 2019, gyda'r nod o gael hyd i gyflogaeth ar gyfer y cyfranogwyr ar ddiwedd y rhaglen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Oherwydd pandemig COVID-19, mae'r tîm yn paratoi i ddefnyddio Microsoft Teams i sicrhau cydweithio parhaus trwy'r Grŵp Cefnogi Cyflogwyr a chyswllt â chontractwyr. 	
2.1.5 Byddwn ni'n hyrwyddo menter gymdeithasol	<p>Rydym ni'n parhau i gefnogi cyrff gwirfoddol y 3ydd sector i gynorthwyo, cynghori a llywio'r gwaith o hyrwyddo mentrau cymdeithasol.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn allweddol ar gyfer llwyddiant yr amrywiol fentrau Cymunedol sy'n parhau, megis Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
<p>2.2.1 Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i ddarparu cyfuniad digonol o dai o wahanol fath a deiliadaeth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys y gymuned sipsiwn a theithwyr yn y lleoliadau cywir</p>	<ul style="list-style-type: none"> Rydym yn monitro'n barhaus gyflwyno tai ar draws y fwrdeistref sirol oddi mewn i Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI. Mae'r ffigurau tai (ar 31.03.20) yn nodi cyfanswm o 2,338 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu ers 2011, ac o'r rheiny roedd 68 uned yn fforddiadwy ac wedi'u cyflwyno trwy'r system gynllunio. Er bod digon o dir wedi'i neilltuo yn y CDLI i ymateb i'r galw a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau nid yw safleoedd yn cael eu cynnig nac yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl, gyda chyfanswm nifer y cartrefi a adeiladwyd yn CNPT ers dyddiad sylfaen CDLI 2011 yn cyfateb i 55% yn unig o'r targed blynyddol cronolol hyd yma. Gellir egluro hyn yn bennaf yn sgîl y dirywiad economaidd. Mae'r CDLI hefyd yn darparu ar gyfer 11 o leiniau i'r gymuned sipsiwn a theithwyr yng Nghae Garw, Margam. Cychwynnodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol ym mis Ionawr 2020, gydag Adroddiad yr Adolygiad i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor (yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos) ym mis Gorffennaf 2020. Rhagwelir y bydd yr adolygiad o'r CDLI yn cymryd hyd at 4 blynedd i'w gwblhau ac yn cynnwys proses ymgynghori. Cynigir y bydd y CDLI Amnewid (CDLIA) yn cwmpasu cyfnod o 2020-2035 ar gyfer y cynllun, gyda 1 Ebrill 2020 yn ddyddiad sylfaen. Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig COVID-19 gallai fod rhywfaint o oedi (a allai effeithio ar y dyddiad sylfaen a chyfnod y cynllun). Mae trafodaethau ar waith ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru, a rhagwelir y byddwn ni'n ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni'r CDLIA (sy'n cyflwyno amserlen yr adolygiad, Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) a'r adnoddau y 	<p align="center">Ambr</p>

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>bydd y Cyngor yn eu hymrwymo i ddatblygu'r CDLIA) yn gynnar yn 2021.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethom ni gynnal asesiad risg ar 354 o eiddo gwag hir dymor oedd yn cael eu gweld fel rhai trafferthus trwy gwynion, hysbysiadau a dderbyniwyd a chofnodion treth y cyngor. Ar 31 Rhagfyr 2019, nodwyd 37 o eiddo fel rhai blaenoriaeth uchel, ac o'r rheiny mae 12 wedi/yn mynd trwy'r broses o orfodi eu gwerthu. <p>KPI: Mae canran yr eiddo preifat gwag y dechreuir eu defnyddio eto yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn flynyddol. Oherwydd sefyllfa gyfredol COVID-19, ni chasglwyd data ynghylch y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn yn 2019-20.</p>	
2.2.2 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid tai strategol i barhau i atal digartrefedd	<p>Mae Opsiynau Tai yn dal i weithio gyda'r holl Landloriaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) a darparwyr cymorth trydydd sector i arbed tenantiaethau a darparu cymorth i atal digartrefedd. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda LCCiaid i gynyddu nifer yr unedau llety interim.</p> <p>Oherwydd newidiadau brys yn y ddeddfwriaeth ddiwedd mis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19, mae'r galw am lety dros dro wedi cynyddu 120% o gymharu â'r cyfartaledd arferol, a bu'n rhaid cael hyd i safleoedd llety newydd. Rhan o hynny yw 18 uned ychwanegol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cael eu defnyddio am hyd at 6 mis, a bydd y defnydd parhaus yn cael ei adolygu bryd hynny.</p> <p>KPI: Llwyddwyd i atal 51.5% o aelwydydd rhag bod yn ddigartref (targed: 58%), o gymharu â 54.4% yn yr un cyfnod yn 2018-19, a'n targed ar gyfer y flwyddyn oedd 58%. Cafodd</p>	Ambr

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	pandemig COVID-19 effaith ar berfformiad yn ystod mis Mawrth 2020	
2.2.3 Byddwn ni'n targedu'r arian sydd ar gael i ddarparu cymorth tai effeithiol ar gyfer pobl y nodwyd bod angen help a chefnogaeth ychwanegol arnynt	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi sicrhau cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig ac Arloesedd (ICF) i ddatblygu 14 uned o lety ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Mae 4 person wedi cael eu symud i mewn i fflatiau arbenigol, ac mae 3 pherson wedi cael eu symud i drefniadau byw â chymorth. Sicrhawyd Grant Tai Cymdeithasol (SHG) i ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ar gyfer 8 person sydd ag anghenion cymhleth, a'r bwriad yw ei ddatblygu yn 2020-21. Cyflwynwyd cynnig ICF i weithio gyda LCC i ddatblygu cynllun arbenigol byw â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a nam synhwyrdd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Hwn fydd y cynllun cyntaf o'i fath yn CNPT. Sefydlwyd fframwaith ar gyfer darparu cefnogaeth ar gyfer cynlluniau byw â chymorth ar gyfer rhai ag anabledd dysgu, a chwblhawyd ymarferiad caffael i gomisiynu darparwr i gyflwyno gofal mewn cynllun newydd byw â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Rydym wedi gweithio gyda LCC i sicrhau ymrwymiad i adeiladu cynlluniau newydd yn ystod y 3 blynedd nesaf, gan ddefnyddio cyllid preifat yn unol â'r gofynion a nodwyd. Rydym wedi cwblhau ymarferiad mapio i nodi'r bobl hynny y rhagwelir y bydd angen gwasanaethau llety a chefnogaeth arnynt. Rydym wedi dod i gytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ynghylch y 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	prosesau ar gyfer datblygu a chomisiynu cynlluniau newydd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.	
2.2.4 Byddwn ni'n parhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oddi mewn i derfynau'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor	<p>Cwblhawyd 212 o grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 300 y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Gostyngodd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant yn sylweddol i 196 o ddiwrnodau, o gymharu â 232 o ddiwrnodau y flwyddyn flaenorol yn achos y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn. Mae modd egluro'r amrywiad yn y cyfnodau cyflawni yn rhannol oherwydd gostyngiad yn yr amser i gwblhau asesiad Therapi Galwedigaethol Cymunedol (COT).</p> <p>Mae data 2019-20 yn anghyflawn oherwydd yr amharu a achoswyd gan COVID-19, oedd yn golygu na allai'r syrfewyr archwilio a chadarnhau'r gwaith a gwblhawyd yn ystod mis Mawrth 2020.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.3.1 Byddwn ni'n gwneud ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn flaenoriaeth er mwyn lleihau nifer y dioddefwyr eildro a lleihau nifer yr achosion risg uchel (Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach)	<p>Cafodd y Strategaeth VAWDASV 'Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach' ei hadolygu, ond gohiriwyd y lansio oherwydd pandemig COVID-19. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth lleol a goroeswyr VAWDASV.</p> <p>Daethom ni'n awdurdod cyntaf yng Nghymru i weithredu polisi 'Absenoldeb Diogel' ar gyfer staff sy'n dioddef effaith unrhyw fath o Gam-drin Domestig, er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau cymorth, cyngor cyfreithiol, tai amgen neu gymorth meddygol mewn modd diogel, wedi'i gynllunio.</p> <p>KPI: Yn ystod 2019-20, roedd 40% o'r achosion o gam-drin domestig risg uchaf yn ddioddefwyr eildro, sy'n uwch na'n targed o 33% ac yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 38.6%. Ceir esboniad manwl ar y cynnydd yn ein hadroddiad ar gyfres 2019-20 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ein Cynllun Corfforaethol.</p>	Ambr
2.3.2 Byddwn ni'n cefnogi ac yn amddiffyn pobl sy'n agored i gael eu denu i frawychiaeth ac eithafiaeth	<p>Mae panel 'Channel' yn parhau i fonitro nifer yr atgyfeiriadau newydd ac mae'n adolygu pob achos ar ôl 6 mis.</p> <p>Mae panel 'Channel' bellach mewn sefyllfa lawer cryfach, gyda phartneriaid ychwanegol yn mynychu i rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer yr unigolyn dan sylw, gan sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei chynnig.</p> <p>Mae'r atgyfeiriadau'n cynyddu wrth i fwy o bobl gael hyfforddiant Prevent (WRAP) a dod yn</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>ymwybodol o'r broses atgyfeirio. Fodd bynnag, mae nifer yr atgyfeiriadau yn gyffredinol yn dal yn isel, ond mae hynny'n golygu bod gan y panel fwy o amser i ystyried pob achos a'u cadw'n agored i drafodaeth nes eu bod yn fodlon bod yr holl gamau gweithredu priodol wedi'u cyflawni.</p> <p>Mae Panel 'Channel' yn dal i fod o dan oruchwyliaeth Grŵp Gweithredu Prevent CNPT a'r Bwrdd CONTEST Rhanbarthol.</p>	
2.3.3 Byddwn ni'n parhau i fonitro ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol mewn cydweithrediad â'n partneriaid diogelwch cymunedol ac yn sicrhau ymateb effeithiol yn ôl y galw	<p>Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dal i gadw golwg ar Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yn CNPT. Cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol i'r Pwyllgor Craffu Diogelwch Cymunedol.</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd rôl y Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn datblygu'n fwy strategol, gan weithio gyda phartneriaid i nodi pryderon a risgiau a datblygu cynlluniau gweithredu priodol.</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymateb i faterion ymddygiad Gwrth-gymdeithasol wrth iddyn nhw godi, mae'n dibynnu'n drwm ar gyfranogiad asiantaethau partner, ac mae'r dull yma'n llwyddiannus iawn wrth ddileu cilfachau o ymddygiad gwrthgymdeithasol â chynlluniau gweithredu a monitro wedi'u targedu'n fanwl.</p> <p>Mae'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth Pobl Fregus ar y Stryd (MARAC) yn dal i weithredu, yn cael ei chydlynu gan Ddiogelwch Cymunedol, ond gyda phresenoldeb amlwg gan Heddlu De Cymru, Opsiynau Tai, gweithwyr camddefnyddio sylweddau ac amryw o rai</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	eraill, er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu a monitro person-ganolog, sydd wedi llwyddo mewn sawl achos. Mae'r gwaith hwn yn cydweddu'n dda â'r gwaith trosfwaol ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y fwrdeistref ac yn sicrhau dull gweithredu cydlynus a pherson-ganolog.	
2.3.4 Byddwn ni'n gweithio oddi mewn i Bartneriaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) i weithredu'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, gan roi blaenoriaeth i leihau'r marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, gwella'r ymatebion gwasanaeth ar	<p>Mae nifer y bobl yng Nghymru sydd wedi marw oherwydd camddefnyddio sylweddau wedi cynyddu 84% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau, a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), yn dangos mai Abertawe oedd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru o farwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau rhwng 2016 a 2018. Hon oedd yr ail gyfradd uchaf ar draws Cymru a Lloegr, a Chastell-nedd Port Talbot oedd yn y trydydd safle. Mewn ymateb i hyn, ffurfiodd y partneriaid Grŵp Digwyddiadau Critigol i edrych yn fanylach ar y sefyllfa, a chytunwyd ar gamau gweithredu uniongyrchol ar gyfer gwelliant, camau sydd bellach yn cael eu datblygu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal. Bydd y gwaith yma'n parhau yn 2020-2021.</p> <p>Dechreuodd gwaith i ddatblygu strategaeth diagnosis deuol, sy'n cael ei harwain gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe.</p> <p>Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar weithredu'r isafbris uned o alcohol ar 15 Ionawr 2020. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid er mwyn rhoi strategaeth gyfathrebu leol ar waith.</p>	Ambr

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yr un pryd; a chefnogi cyflwyno deddfwriaeth newydd ar isafbris uned o alcohol		
2.3.5 Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i weithredu ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd cyfres o ymgyrchoedd addysg a hyfforddiant blaengar i ddefnyddwyr ffyrdd, a mynd ati i hyrwyddo ymhellach ein hyfforddiant Mewnol/Allanol i yrwyr a chaffael trwydded, ochr yn ochr â chynyddu gweithgareddau hyrwyddo ar draws y fwrdeistref sirol, e.e. yn erbyn Yfed a Gyrru, ymwybyddiaeth o gyflymder etc. Rydym yn parhau i roi sylw i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg trwy amrywiaeth o gyfryngau, e.e. ymgyrchoedd radio, platfformau cyfryngau cymdeithasol, ffeiriau, ymgyrchoedd mewnol. Mae hyfforddiant beiciau modur Dragon Rider yn dal yn boblogaidd ymhlith y gymuned beiciau modur, ac mae'r ffaith bod 'Blood Bikers' yn ei gydnabod fel tystysgrif hyfforddi wedi codi ei broffil ymhellach. <p>KPI: Mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol diogelwch ffyrdd, mae</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	gostyngiadau sylweddol ar draws y rhan fwyaf o'r mesurau hyn yn erbyn targedau LIC. Mae rhagor o fanylion ar gael yng nghyfres 2019-20 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol , a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.	
2.3.6 Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu diogelu, a chryfhau ein trefniadau diogelu ar gyfer oedolion bregus	<ul style="list-style-type: none"> • Daeth dogfennau gweithdrefnau Newydd Cymru Gyfan i law ym mis Hydref 2019, ac wedi hynny lansiwyd gweithdrefnau newydd yn CNPT ym mis Rhagfyr 2019. • Mae'r holl reolwyr gwasanaeth wedi cael y gweithdrefnau newydd ac mae peth gwaith eisoes wedi cychwyn ar ddiwygio'r llwybr Diogelu Oedolion (h.y. Atgyfeiriad Integredig, Atgyfeiriadau gan lechyd (Diogelu oedolion), Honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol etc.) • Mae'r gwaith adolygu a diwygio i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn parhau, yn benodol yng nghyswllt gwreiddio ar draws y Gwasanaethau Oedolion, gan fod hyn yn ganolog i ailfodelu'r gwasanaethau hynny. Mae deunydd hyfforddi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'w lledaenu gan Ofal Cymdeithasol. Bydd y darn hwn o waith yn parhau ar hyd 2020-21. • Mae rhaglen o waith i archwilio llwybrau diogelu er mwyn eu meincnodi yn erbyn y gweithdrefnau newydd wedi bod yn destun oedi oherwydd COVID-19, ond bydd yn awr yn derbyn sylw rhwng Gorffennaf ac Awst 2020 i sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu gwreiddio'n llawn ar draws y gwasanaeth. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.3.7 Caiff safleoedd bwyd eu rheoleiddio i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei ddarparu yn addas i'w fwyta gan bobl a bod y safle sy'n ei werthu yn hylan	<p>Mae'r holl fusnesau risg uchel oedd i gael archwiliad wedi'i raglennu yn ystod y flwyddyn wedi cael eu harchwilio.</p> <p>KPI: yn achos 2019-20, mae 95.15% (981 o 1,031) o'r safleoedd bwyd yn bodloni safonau hylendid bwyd yn y fwrdeistref sirol. Cynnydd bychan o ran perfformiad, gan fod Sgôr Hylendid o 3, 4 neu 5 gan fwy o fusnesau bwyd bellach. Ein targed ar gyfer 2019-20 oedd 95% sydd yr un fath yn fras â'r ffigur diweddaraf sydd ar gael ar gyfer perfformiad Cymru Gyfan.</p>	Gwyrdd
2.3.8 Byddwn ni'n ymchwilio i achosion sy'n amharu ar integriti'r gadwyn fwyd, o'r fferm i'r fforc (porthiant, iechyd anifeiliaid a safonau bwyd)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl archwiliadau rhagweithiol risg uchel o iechyd anifeiliaid wedi cael eu cwblhau. Mae'r adran safonau masnach yn ymwneud ag ymchwiliad cymhleth i borthiant gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd wedi arwain at gyflwyno rhybudd i wella ac ymchwiliad troseddol i gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes oherwydd bod samplau lluosog wedi methu profion microfiologol. Mae archwiliadau porthiant yn digwydd yn rhanbarthol, a chyrhaeddwyd y targed ar gyfer archwiliadau porthiant erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Mae'r adran wedi bod yn ymchwilio i ganabis a bwydydd yn cynnwys canabis sy'n groes i ddeddfwriaeth safonau bwyd, maent wedi cipio cyflenwadau gan fasnachwyr, ac wedi dadansoddi samplau. Mae'r cynhyrchion yma yn broblem sy'n dod i'r amlwg, ac rydym ni'n gweithio gyda'r asiantaethau partner perthnasol, megis Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Heddlu i 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>roi sylw i'r achosion o dorri'r rheolau mae'r cynhyrchion yn enghreifftiau ohonynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ymchwiliad gan yr adran yn parhau i fanwerthwr mawr am werthu bwyd heibio'r dyddiad defnyddio, ac mae i gael ei wrando yn y llys ym mis Hydref 2020. Llwyddodd yr adran i erlyn busnes am werthu cludfwyd a gamddisgrifiwyd, pryd a werthwyd fel cig oen er ei fod yn cynnwys cig eidion yn bennaf. Roedd y rhaglen archwilio safonau bwyd risg uchel yn cadw at yr amserlen i gyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn, er bod swyddog safonau masnach wedi cael ei golli trwy ymddeoliad. Yr adran yw'r unig wasanaeth safonau bwyd yng Nghymru sy'n cyfranogi mewn peilot cenedlaethol ar gyfer cynllun asesu risg newydd ar gyfer safonau bwyd, a ddylai olygu bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n fwy effeithiol? ar gyfer meysydd sy'n destun pryder a busnesau a sectorau busnes sy'n achosi trafferthion. Bu oedi wrth weithredu'r peilot oherwydd y pandemig, ond dylai gychwyn tua diwedd blwyddyn galendr 2020. 	
2.3.9 Drwy weithio gyda phartneriaid a diogelu'r cyhoedd, byddwn ni'n ymchwilio i achosion sylweddol o dwyllo defnyddwyr, torri rheolau diogelwch cynnyrch a	<ul style="list-style-type: none"> Rydym ni'n parhau i ymchwilio i adroddiadau am dwyllo defnyddwyr, ar sail risg, cadernid gwybodaeth a'r niwed posibl i ddefnyddwyr, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid lle bo hynny'n briodol i helpu i atal achosion o dwyllo defnyddwyr ac i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed. Cafwyd canlyniad llwyddiannus i 19 o 39 (48.7%) o ymchwiliadau twyllo defnyddwyr yn ystod 2019-20. Mae achos mwyaf y tîm Twyll, sy'n ymwneud â chwmni ystafelloedd haul, i fynd i dreial ym mis Hydref 2020. Cwynion ynghylch y cwmni hwn yw mwyafrif yr achosion o dorri'r rheolau sydd i'w hunioni. Mae hefyd nifer o ymchwiliadau a oedd yn parhau, nad oeddent yn debygol o gael eu datrys cyn diwedd mis Mawrth, hyd yn oed cyn cyfyngiadau symud COVID-19 a'r amharu a ddigwyddodd yn sgîl hynny. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Cam	Cynnydd	Statws CAG
gwerthu nwyddau â chyfyngiad oed a ganfyddir yn rhagweithiol neu'n adweithiol	<ul style="list-style-type: none"> Bu ymgyrch ar y cyd â'n tîm gorfodi gwastraff ynghylch gweithgaredd Masnachwyr Diegwyddor yn llwyddiannus. Mae bwriad i ailadrodd yr ymgyrch lwyddiannus hon ar y cyd y flwyddyn nesa, ond mae cynlluniau i ailadrodd yr ymarferiad wedi cael eu gohirio oherwydd pandemig COVID-19. Llwyddodd safonau masnach i erlyn masnachwr ceir am werthu cerbydau peryglus a rhai a gamddisgrifiwyd, ac adeiladwr am waith gwael a gamddisgrifiwyd ar gartref preswlydd bregus. Lansiodd Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel ymgyrch i helpu pobl i adnabod ac osgoi maglau rhoi benthyg arian yn anghyfreithlon. Nod yr ymgyrch oedd grymuso aelodau o'r cyhoedd i wneud safiad yn erbyn benthychwyr arian anghyfreithlon, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel benthychwyr diegwyddor, trwy gynyddu ymwybyddiaeth o sut mae adnabod yr unigolion hyn a rhoi gwybod amdanynt. 	
2.3.10 Byddwn ni'n gweithio gyda'n holl randdeiliaid i ddarparu amgylchedd adeiledig diogel a chynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"> Rydym ni'n sicrhau bod yr holl waith adeiladu a reolir yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu er mwyn diogelu iechyd a diogelwch pobl mewn adeiladau ac o'u cwrdd. Mae swyddogion yn cychwyn ymyriadau cyn torri'r rheolau yn ddyddiol. Ni dderbyniwyd cwynion ynghylch diffyg cydymffurfio yn 2019-20. Aseswyd pob adroddiad ynghylch Strwythurau peryglus o fewn dwy awr i'w derbyn, a'u harchwilio o fewn un diwrnod gwaith. Rydym ni'n gweithio gyda chlybiau chwaraeon i gyflwyno tystysgrifau diogelwch o dan ddeddfwriaeth Diogelwch Meysydd Chwaraeon ac rydym yn cynnal gwiriad archwilio blynyddol a chyfnodol ar gydymffurfiaeth, gan sicrhau diogelwch cyhoeddus oddi mewn i 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>feysydd sydd â thystysgrif.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae 97.4% o'r ceisiadau rheoli adeiladu 'cynllun llawn' yn cael eu gwirio o fewn 15 diwrnod. 	

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.4 Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.4.1 Bydd pobl yn cael eu cefnogi i dderbyn y budd-daliadau y gallant eu hawlio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig	<p>Rydym yn parhau i ddiweddarau ein gwefan i sicrhau ein bod yn rhoi cyngor perthnasol yng nghyswllt Budd-dal Tai, Cymorth Treth y Cyngor a Thaliadau Tai Disgresiynol. Mae defnydd o sianeli digidol yn cael ei annog yn barhaus wrth gysylltu â phreswylwyr. Mae mwy o ffurflenni ar-lein yn cael eu datblygu ac mae ffurflen Taliadau Tai Disgresiynol newydd yn awr yn fyw.</p> <p>Mae argaeledd cefnogaeth hefyd yn cael ei hyrwyddo ar yr holl ddogfennau perthnasol, yn ogystal â chyfeirio ymlaen at asiantaethau cymorth.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.4 Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	Mae 99.96% o'r budd-daliadau a roddir yn gywir, ac ar gyfartaledd ar hyd y flwyddyn mae'n cymryd 2.3 diwrnod i asesu hawliadau newydd a newid amgylchiadau, sy'n sylweddol is na'n targed o 6 diwrnod.	
2.4.2 Byddwn ni'n gweithredu Cynllun Llywodraeth Cymru i ysgafnhau baich Treth y Cyngor ar y rhai sydd â'r incwm isaf	<p>Cytunodd y Cyngor i barhau â chynllun cymorth ar gyfer treth y cyngor (datganiad i'r wasg) i helpu ei breswylwyr mwyaf bregus (Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, fel y'i gelwir). Mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd trwy'r Cynllun i'r rhai sy'n methu gweithio yn allweddol i fwyafu incwm aelwydydd a helpu pobl i osgoi tlodi.</p> <p>Mae cynllun Treth y Cyngor wedi cael ei ddiweddarau'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2019 a dyfarnwyd yn unol â hynny. Mae argaeledd cymorth yn cael ei hyrwyddo ar yr holl ddogfennau perthnasol ac mae'r cynllun a gwybodaeth esboniadol ar gael ar-lein. Mae bwriad i ddarparu ffurflen newydd i hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor ar-lein yn haf 2020. Mae'n debygol bydd nifer y preswylwyr sydd angen y cynllun hwn yn codi'n sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19.</p>	Gwyrdd
2.4.3 Byddwn ni'n gweithredu'r strwythur cyflogau a graddau newydd ar gyfer staff, a fydd yn helpu i godi incwm net y rhai sy'n derbyn y tâl isaf	<p>Cadarnhaodd Cyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Llywodraeth Leol ym mis Ebrill 2018 fod cytundeb bellach rhwng y Cyflogwyr Cenedlaethol ac Undebau Llafur y Cyd-gyngor ynghylch y cyfraddau cyflog oedd yn berthnasol o 1 Ebrill 2018 a 1 Ebrill 2019. Roedd y cytundeb yn darparu ar gyfer gweithredu dyfarniad cyflog cynnydd canran o 1 Ebrill 2018 a cholofn gyflogau newydd o 1 Ebrill 2019.</p> <p>Er mwyn rhoi colofn gyflogau newydd ar waith erbyn 1 Ebrill 2019, sefydlodd y Cyngor hwn Grŵp Modelu Cyflogau ar y cyd â'r undebau llafur ym mis Medi 2018 er mwyn rhoi cymaint</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.4 Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>o amser â phosibl i'r awdurdod i weithredu colofn gyflogau newydd yr LGS.</p> <p>Cynhaliwyd asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb ar gyfer y model cyflogau a ffafrid (y cytunwyd arno gan yr Undebau Llafur yn lleol), ac anfonwyd hynny at swyddogion rhanbarthol yr Undebau Llafur, heb dderbyn unrhyw sylwadau negyddol. Galluogodd hynny ni in weithredu colofn gyflogau newydd yr LGS, wedi prawf cydraddoldeb llawn, erbyn 1 Ebrill 2019.</p>	
2.4.4 Byddwn ni'n gweithio gyda Chwarae Teg i ddeall pam mae gennym ni fwllch cyflog rhwng y rhywiau a beth gallem ni wneud i gau'r bwllch hwnnw	<p>Ymunodd y Cyngor â Chynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ym mis Chwefror 2019, i'n cefnogi i gyflawni cydraddoldeb rhywedd yn ein gweithleoedd a chyflawni holl fanteision gweithlu gwirioneddol gytbwys. Eleni, bu Chwarae Teg yn asesu polisïau ac arferion cydraddoldeb rhywedd y Cyngor, including a survey of the Council's workforce, a dyfarnwyd Gwobr Arian i ni am Amrywiaeth Rhywedd. Mae'r dyfarniad hwn yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwneud ymrwymiad clir i wneud gwahaniaeth yng nghyswllt recriwtio, cadw a chynnydd benywod yn y gweithle.</p> <p>Mae Chwarae Teg wedi'n helpu i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd, sy'n cynnwys camau penodol i leihau Bwllch Cyflog y Cyngor rhwng y Rhywiau. Mae'r cynllun gweithredu yn ystyried yn benodol y cyflogeion benyw sy'n derbyn y tâl isaf, sy'n arbennig o bwysig, oherwydd er mai 70% o broffil rhywedd cyffredinol y Cyngor sy'n fenywod, mae 97% o'r rhai a gyflogir ar Radd 1, band cyflog isaf y Cyngor, yn gyflogeion benyw</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.4 Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	Rydym hefyd yn adolygu'r Polisi Gweithio Hyblyg a'r Polisi Ymddeol Hyblyg.	
2.4.5 Byddwn ni'n comisiynu gwaith ymchwil i nodi effaith y mesurau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eu cyflwyno i ddiwygio budd-daliadau lles ar bobl leol, ac yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod sut gallwn ni liniaru caledi ariannol	<p>Dywedwyd y byddem ni'n comisiynu gwaith ymchwil i sicrhau cipolwg cliriach ar effaith diwygio budd-daliadau lles ar bobl leol. Ar 17 Ebrill rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i Bolisi Corfforaethol gomisiynu Polisi ar Waith i ddatblygu Traciwr Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Trwy ddefnyddio data lefel aelwyd a dadansoddi datblygedig bydd y traciwr yn ein galluogi i ganfod graddfa'r effaith bydd newidiadau i ddiwygio lles yn eu cael ar breswylwyr. Ar 10 Gorffennaf 2019 cafodd y traciwr ei arddangos i bartneriaid yn Fforwm Strategol Lefel Uchel Diwygio Lles. Bydd yr wybodaeth a gawsom o'r gwaith hwn hefyd yn ein galluogi i ddeall yn well yr effeithiau ar ein preswylwyr sy'n dioddef caledi ariannol oherwydd COVID-19.</p> <p>Cynhaliwyd Symposiwm Tlodi amlasiantaeth yn Theatr y Dywysoges Frenhinol ar 20 Medi 2019 i hwyluso trafodaeth ynghylch beth arall gallwn ni wneud i amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ran argyfwng ariannol. Roedd rhyw 120 o bobl yn bresennol o nifer o sefydliadau. Mae'r adborth ar y digwyddiad wedi bod yn gadarnhaol.</p> <p>Cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth dilynol ar dlodi, ar 30 Ionawr 2020. Wedi'r gweithdy cynhyrchodd Sefydliad Bevan adroddiad o argymhellion. Roedd bwriad i'r ymgynghorydd Naomi Eisenstadt a Sefydliad Bevan fynychu sesiwn frifio ar gyfer Aelodau'r Cabinet ar 27 Ebrill 2020 i gymeradwyo'r camau nesaf. Gwaetha'r modd, oherwydd sefyllfa COVID-19 gohiriwyd y cyfarfod a bydd y gwaith ar dlodi yn symud ymlaen cyn gynted â phosibl.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.4 Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	Wrth edrych i'r dyfodol rydym hefyd yn gweithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Abertawe i sicrhau cyllid i gomisiynu gwaith ymchwil ar draws Bae Abertawe i edrych ar anghydraddoldebau ieuchyd.	

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol		
Blaenoriaeth Gwelliant 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw'n derbyn gwasanaethau personol ganddynt		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.5.1 Byddwn ni'n datblygu ymhellach y "drws ffrynt" i'r gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cydlynus o ran gwybodaeth,	<p>Mae fersiwn derfynol o ffurflen 'Atgyfeiriad Sengl' bellach ar gael i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, a'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r ffurflen hon yn deillio o gydweithio rhwng croestoriadau o staff Gwasanaethau Cymdeithasol a lechyd. Mae'r ffurflen yn hwyluso cyfle i gasglu pryderon diogelu Oedolion (oedd yn cael eu cofnodi ar wahân o'r blaen). Lansiwyd y ffurflen atgyfeiriad sengl ar 4 Chwefror 2020 a dechreuwyd ei defnyddio ar draws yr asiantaethau partner.</p> <p>Mae lansiad ffurfiol y 'Pwynt Cyswllt Sengl' ar gyfer Oedolion a Phlant, oedd i fod i ddigwydd ar 1 Ebrill 2020 wedi cael ei ohirio oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, mae gwaith wedi parhau er mwyn integreiddio'r gwasanaeth drws ffrynt gymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'r</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw'n derbyn gwasanaethau personol ganddynt

Cam	Cynnydd	Statws CAG
cyngor a chymorth	gwasanaeth wedi symud i rif ffôn sengl integredig ar gyfer ymateb i'r holl atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Unwaith mae'r trefniadau gweithio gartref wedi setlo, byddwn ni hefyd yn symud i un cyfeiriad e-bost i gynrychioli integreiddio'r gwasanaeth 'drws ffrynt'. Un o ganlyniadau gweithio mwy integredig fu cwblhau asesiadau cynhwysfawr, prydlon.	
2.5.2 Byddwn ni'n datblygu'r ddarpariaeth gofal cartref a gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn er mwyn sicrhau bod digon o leoliadau o safon i ddiwallu'r angen lleol	<p>Datblygwyd trefniant cronfa gyfunedig ranbarthol Adran 33 Gorllewin Morgannwg gyda Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe ar gyfer cartrefi gofal Pobl Hŷn, a gyflwynwyd i Fwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 lle cymeradwywyd awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gychwyn ar gytundeb adran 33.</p> <p>Mae gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cychwyn ar gytundebau rhanbarthol A33 o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, a gyflwynwyd o dan Ran 9 o'r Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld cydweithio agosach trwy sefydlu cronfeydd cyfunedig yn fodd i gefnogi gwasanaethau mwy effeithlon ac o ansawdd gwell trwy annog partneriaid i gydweithio mewn ffyrdd sy'n mwyafu eu capasiti i ffurfio'r farchnad. Ymhlith manteision arfaethedig trefniadau cronfeydd cyfunedig mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o ddyblygu trwy ddileu neu leihau prosesau tebyg sy'n cael eu cyflawni a'u hariannu gan wahanol gomisiynwyr; • Llai o fylchau wrth i gomisiynu mwy integredig fwyafu'r cyfle i dargedu adnoddau lle mae eu hangen. Er enghraifft trwy greu gwasanaethau cyfun integredig i ddiwallu anghenion 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw'n derbyn gwasanaethau personol ganddynt

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>cymhleth;</p> <ul style="list-style-type: none"> Lleihau gweithio ynysig lle gall pwysau a phrosesau cyllidebau gwahanol arwain at wahanol flaenoriaethau neu benderfyniadau unochrog, sy'n gallu achosi ansefydlogi; Prosesau mwy effeithlon gyda llai o'r problemau cydlynau sy'n gallu digwydd pan fydd gan wahanol sefydliadau rolau a swyddogaethau gwahanol; Llai o oedi, fel sy'n gallu digwydd pan fo mwy nag un comisiynydd yn ymwneud â phenderfyniadau, oherwydd bod angen cytundebau lluosog <p>Cynhaliwyd fforymau darparwyr bob chwarter ar gyfer y gwahanol farchnadoedd (Cartrefi gofal pobl hŷn, gofal cartref, gwasanaethau anabledd dysgu, gwasanaethau iechyd meddwl) yn ystod 2019/20 a chynhelir cyfarfodydd cyswllt contract rheolaidd gyda darparwyr.</p> <p>Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu contract rhanbarthol newydd ar gyfer cartrefi gofal. Cwblhawyd y drafft terfynol ym mis Ionawr, gyda'r bwriad o ddosbarthu'r cytundeb i ddarparwyr ym mis Chwefror/Mawrth ar gyfer eu sylwadau, ond bu oedi gyda'r gwaith yma oherwydd COVID-19. O ganlyniad, nid ydym wedi gallu cynnal ymarferiad ymgynghori, ond byddwn yn ailgydio yn hynny cyn gynted â phosibl.</p>	
2.5.3 Byddwn ni'n datblygu ein gwasanaethau gofal canolraddol	<p>Mae gwaith yn parhau ar draws y rhanbarth i adolygu'r mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn y gymuned er mwyn galluogi mwy o bobl i gadw eu hannibyniaeth.</p> <p>Lansiwyd y Model Adref o'r Ysbyty (H2H) ar 10 Rhagfyr 2019, ac mae'r gwaith o recriwtio staff</p>	

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw'n derbyn gwasanaethau personol ganddynt

Cam	Cynnydd	Statws CAG
ymhellach er mwyn galluogi mwy o bobl i gadw ac adennill eu hannibyniaeth trwy weithredu model o'r ysbyty i adferiad gartref	<p>wedi'i gwblhau. Cafwyd rhai anawsterau yn y cyfnod cynnar, ond fe'u datryswyd. Cafodd y model ei wella ymhellach i gefnogi pobl i adael yr ysbyty yn gyflym. Ers COVID-19, mae wedi datblygu ymhellach yn fodel rhyddhau cyflym.</p> <p>KPI: Mae cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol wedi cynyddu yn 2019-20 i 10.05 o bobl fesul 1,000 o boblogaeth dros 75 oed. Y targed ar gyfer y flwyddyn oedd 3.5. Cyfradd 2018-19 oedd 6.29. Yn ystod eleni mae'r awdurdod lleol wedi wynebu heriau wrth sicrhau gwasanaethau priodol ar gyfer rhai pobl i hwyluso'r rhyddhau o'r ysbyty.</p>	Ambr
2.5.4 Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein model gofal seliedig ar gynnydd ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol	<p>Bellach mae arweinydd penodol ar gyfer Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD) wrthi yn rhoi'r cynllun strategol ASD ar waith yn y sir. Mae'r arweinydd yn mynychu'r cyfarfodydd misol ac yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol perthnasol, rhieni, gofalmwyr a phobl ag ASD er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu gan holl aelodau'r grŵp llywio er mwyn gwella bywydau pobl sydd ag Awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalmwyr.</p> <p>Cyfeiriwch hefyd at Gam 2.2.3 uchod, os gwelwch yn dda.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw'n derbyn gwasanaethau personol ganddynt

Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.5.5 Byddwn ni'n adolygu'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu ar gyfer y bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth i sicrhau eu bod yn dal yn addas at y diben	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddwyd nifer yr adolygiadau defnyddwyr gwasanaeth a gynhaliwyd o 1,439 yn 2018-19 i 1,518 yn 2019-20. • Rydym yn parhau i fesur y canlyniadau ar gyfer pobl â'r achosion mwyaf cymhleth fesul achos. • Mae gan Dimau Gwaith Cymdeithasol ddull gweithredu a gynlluniwyd wrth gynnal adolygiadau, ac maent wedi gwneud cynnydd o ran cynnal adolygiadau oedd heb eu cwblhau ac maent yn rhagweld y byddant yn gwneud cynnydd pellach. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Blaenoriaeth Gwelliant 2.6 Bydd pobl yn gallu lleisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw, a lle mae angen help ar bobl i leisio barn, bydd cefnogaeth ar gael ar ffurf eiriolaeth

Cam	Cynnydd	Statws CAG
2.6.1 Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Ranbarthol ar y Cyd ar gyfer Gofalwyr gyda'n partneriaid iechyd	<p>Cyflwynwyd drafft o'r Strategaeth Gofalwyr i Fwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant y Cabinet ar 12 Mawrth 2020 a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad 90 diwrnod. Mae'r ymgynghoriad wedi oedi ar hyn o bryd oherwydd pandemig COVID-19 a bydd yn cychwyn cyn gynted â phosibl.</p> <p>Mae pob gofalwr yn cael cynnig asesiad, ac os na fydd gofalwyr yn manteisio ar y cynnig hwnnw, rhoddir mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth iddyn nhw, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot.</p>	Gwyrdd
2.6.2 Byddwn ni'n gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl ar draws y Cyngor a sicrhau bod gan bobl fynediad at gymorth eiriolaeth lle mae angen hynny	Cynyddwyd y ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae contract newydd wedi cael ei ddatblygu gyda darparwr presennol eiriolaeth broffesiynol annibynnol i gynyddu argaeledd y ddarpariaeth o 21 awr yr wythnos yn 2018-19 i 35 awr yr wythnos yn 2019-20.	Gwyrdd

Perfformiad Amcan Llesiant Tri, blaenoriaethau gwelliant a chamau

Amcan Llesiant 3: Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl: *“Bydd bwrdeistref sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot yn lle bywiog, iach a diogel i fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden ynddo”*



Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru lewyrchus	Mae'r Cynllun yn nodi ystod o gamau arfaethedig i greu cyflogaeth cynaliadwy o safon trwy weithio'n lleol ac yn rhanbarthol. Mae nifer o'r prosiectau Bargaen Ddinesig arfaethedig yn canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel a chreu gallu i wneud yn fawr o botensial technolegau digidol.
Cymru iachach	Mae'r blaenoriaethau'n arddangos dealltwriaeth gadarn o benderfynyddion llesiant a'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor i effeithio ar y penderfynyddion hynny.

Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru o gymunedau cydlynus	Mae'r blaenoriaethau a nodir yn yr adran hon yn darparu sylfaen ar gyfer yr amcanion i blant a phobl ifanc ac oedolion mewn amrywiaeth o ffyrdd – trwy sicrhau cysylltedd, argaeledd cyflogaeth yn lleol, cyfleoedd ar gyfer hamdden, diogelu'r amgylchedd a sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn ddeniadol i fuddsoddwyr.
Cymru gydnerth	Mae'r blaenoriaethau yn cyfeirio at yr adrannau pwysig yn ein Cynllun Datblygu Lleol a fu'n destun arfarniadau cynaliadwyedd llawn ac yn dangos sut bydd y polisiau hynny'n darparu sylfaen ar gyfer amcanion y Cyngor yng nghyswllt gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ei breswylwyr.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Datblygwyd y blaenoriaethau i greu mwy o gyfle i bawb wneud cynnydd mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys: cyfle i sicrhau cyflogaeth o safon, mannau diogel a glân lle gall pobl fyw a magu eu teuluoedd ac ystod eang o ddewisiadau ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae pwysigrwydd safleoedd treftadaeth lleol a'r rhan sydd gan y rhain i'w chwarae wrth gynnal diwylliant yn rhan o'r blaenoriaethau, fel y mae adfywio cymunedau'r cymoedd. Mae gweithio gyda chymunedau yn cael lle amlwg fel thema yn yr adran hon, fel yn yr adrannau blaenorol.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Ymhlith y blaenoriaethau mae lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a chynyddu ailgylchu, yn ogystal â chyflawni ystod o gamau i ddiogelu a datblygu asedau naturiol y fwrdeistref sirol. Mae pwysigrwydd cynyddol technolegau digidol ac ynni newydd (e.e. cysyniad pŵer solar "Adeiladau Gweithredol") hefyd yn cael eu hymgorffori i'r gwaith arfaethedig.

Cynnydd Cyffredinol: nodwyd 25 o gamau, h.y. camau gweithredu i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau gwelliant ar gyfer amcan llesiant 3, y mae 19 ohonynt yn cyrraedd y nod, a 6 yn agos at hynny. Isod ceir gwybodaeth fanylach am ein cynnydd yn erbyn pob cam.

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.1.1 Byddwn ni'n cyflawni rhaglenni adfywio strategol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi cael ei chwblhau a chawsom ddyfarniad APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaeth Cyhoeddus) am y prosiect Tai ac Adfywio Gorau. Mae Seilwaith Glannau'r Harbwr yn gwneud cynnydd. Mae'r gwaith o ailddatblygu hen adeilad Crown i greu gofod busnes newydd yn mynd rhagddo'n dda ac mae gwaith dylunio a dichonoldeb Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig Castell-nedd yn gwneud cynnydd fel rhan o'r Rhaglen Adfywio Dargedig (TRI). Mae Cwrt yr Harbwr wedi'i gwblhau a'i feddiannu. Agorodd Cwmni Technegol o Lundain, Keytree, ei Ganolfan Ragoriaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau a Reolir yn adeilad hanesyddol Llys Ynadon Port Talbot gynt ddiwedd y llynedd. Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan yn cyflogi rhyw 40 o staff, ond mae cynlluniau i godi'r nifer yna i 120 yn ystod y 18 mis nesaf, ac mae recriwtio ar waith eisoes. Mae Keytree yn arbenigo mewn dylunio a chreu apiau i ddatrys heriau integreiddio cymhleth a darparu seilwaith cwmwl er mwyn galluogi cwmnïau i fod yn fwy diwastraff, yn gyflymach ac yn fwy ystwyth mewn byd busnes technolegol sy'n newid yn gyflym. Nawr mae'r cwmni yn creu swyddi technoleg medrus yn y dref, gyda'r bwriad o ddatblygu canolfan arloesedd 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>yn Ne Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu sinema'r Plaza fel canolbwynt cymunedol, a bydd yn cynnwys caffi, swyddfeydd, neuadd amlwrpas, ystafelloedd amlwrpas, campfa, dwy uned fanwerthu a pharcio i geir a beiciau. • Mae gwaith yn digwydd hefyd i ailddatblygu 8 Stryd y Gwynt, Castell-nedd i greu gofod busnes newydd. • Mae gwaith wedi cychwyn i adfywio canol tref Castell-nedd – datblygu gwerth miliynau lawer o bunnoedd – datganiad i'r wasg. Mae grant TRI Llywodraeth Cymru o £5.5m wedi cael ei gymeradwyo mewn egwyddor i helpu i ariannu'r cynllun. • Daliwyd ati i gefnogi canol ein trefi i'w gwneud yn fwy dichonadwy, oedd yn cynnwys: cefnogi digwyddiadau fel Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd, y bu rhyw 50,000 yn ymweld â hi yn ystod y tri diwrnod a chynnal marchnadoedd ym Mhort Talbot, Pontardawe a Glyn-nedd, gyda thrafodaethau ynghylch cynnal marchnad yn Ystalyfera. 	
3.1.2 Byddwn ni'n mwyafu cyfleoedd ariannu i gefnogi cyflawni rhaglenni adfywio strategol y Cyngor	<p>Rydym ni'n parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er mwyn gwneud cais am gyllid sicr ar gyfer rhaglenni adfywio, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cyllid TRI (Buddsoddiad Adfywio Targedig) ar ffurf grant o £5.5 miliwn ar gyfer Canol Tref Castell-nedd wedi cael ei gymeradwyo mewn egwyddor. • Mae cychwyn 2 gynnig Economi Sylfaenol a gymeradwywyd ar gyfer prosiect caffael 	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>lleol a phrosiect mynediad agored wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno fersiynau byrrach (6 mis) o'r prosiectau yn fewnol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cymeradwyaeth lawn i'r Plaza trwy brosiect Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru (a ariannir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) - £5,457,950 o gyllid • Rhoddwyd cymeradwyaeth lawn i 8 Stryd y Gwynt (a ariannir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) - £492,050 o gyllid. <p>Rydym ni'n parhau i fonitro cyllid strategol amgen i gymryd lle cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (ESI) wedi Brexit er mwyn cefnogi'r cynigion adfywio sy'n cael blaenoriaeth gan y Cyngor.</p> <p>Rydym ni'n parhau i ddatblygu'r achosion busnes a'r trefniadau llywodraethu i sicrhau cyllid Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer: Cartrefi sy'n Bwerdai a Chefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.</p>	Gwyrdd
3.1.3 Byddwn ni'n cefnogi busnesau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli i dyfu'r economi leol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith yn parhau gyda mewnfuddsoddwyr posibl ac wrth ehangu busnesau, ac mae potensial i greu a/neu ddiogelu cyflogaeth sylweddol. Mae nifer o ddigwyddiadau arloesi wedi cael eu cwblhau a'u cyflwyno ar gyfer ardaloedd Parth Menter i ddenu buddsoddiad a swyddi newydd i'r ardal ac i gefnogi busnesau lleol i arallgyfeirio a mynd i farchnadoedd newydd, gan hybu twf economaidd ymhellach. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
a denu buddsoddiad newydd	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi cwrdd â thimau Rhanbarthol a Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i broffilio ac arddangos ffocws Castell-nedd Port Talbot ar arloesi, arallgyfeirio, asedau a datblygiadau. Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno cyfres o weithdai, gyda'r nod o gefnogi busnesau sy'n cychwyn gan raddedigion, cynlluniau sy'n deillio o brifysgolion. Bydd Bwrdd Parth Menter Port Talbot, Llywodraeth Cymru a'r sector preifat yn gweithio ar y cyd i gyflwyno'r rhaglen hon, gyda'r nod o annog busnesau lefel uchel i gychwyn a chreu swyddi, twf a chyfleoedd ar gyfer yr ardal leol. <p>KPI: Yn ystod 2019-20, roedd 610 o swyddi wedi cael eu creu neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi rhagori ar darged 2019-20 o 285 a ffigur canlyniad blwyddyn lawn 2018-19, sef 456.</p>	
3.1.4 Byddwn ni'n nodi cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau lleol fel rhan o ddatblygiadau sylweddol yn y fwrdeistref sirol	<p>Mae'r Tîm Datblygu Economaidd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal cyfarfodydd misol gyda'n prif gontractwyr ar gyfer prosiectau yn awr ac yn y dyfodol i drafod y cyfleoedd sy'n dod. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost a'r wefan gyda'r gadwyn gyflenwi leol. Darparu prif gontractwyr ar gyfer prosiectau cyfredol (sy'n cynnwys Ysgol Cefn Saeson, Adeiladau Crown a Mesurau Diogelu Glan Môr Aberafan), gyda manylion busnesau lleol i droi atynt i dendro am gyfleoedd. Gweithio gyda busnesau lleol i'w helpu i gyflawni statws cymeradwy fel eu bod yn gallu cael eu hystyried ar gyfer cadwyn gyflenwi'r prif gontractwyr. Cynnal digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' ar gyfer prosiectau megis Sinema'r Plaza ac 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>Ysgol Abbey Primary yng Nghastell-nedd, y gwahoddwyd yr holl fusnesau lleol i ddod iddyn nhw.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n bartneriaid rhanbarthol i sgorio ceisiadau tendro buddion cymunedol ar gyfer Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol newydd De-orllewin Cymru, a datblygu dull gweithredu safonol ar draws y rhanbarth. Oherwydd COVID-19, wrth symud ymlaen, mae'r tîm yn paratoi i ddefnyddio Microsoft Teams i gyflwyno digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr" ac i sicrhau cydweithio parhaus â'r prif gontractwyr a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid rhanbarthol. 	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.2.1 Byddwn ni'n adolygu ac yn mireinio ein Strategaeth Rheoli Gwastraff yng nghyd-destun	<p>Perfformiad 'ailgylchu' canlyniad dros dro 2019-20 yw 61.74% (yn amodol ar ddilysu gan Gyfoeth Naturiol Cymru). Targed statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn 2019-20 yw 64%.</p> <p>Cynhyrchodd y newidiadau a gyflwynwyd y llynedd i strategaeth wastraff y Cyngor enillion perfformiad, yn arbennig, cawsom ni lwyddiant i gynyddu'r casgliad gwastraff bwyd</p>	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
cyflawni yn erbyn y targedau statudol	<p>(cynnydd o 600 tonnell) a hefyd i leihau'r gwastraff 'bagiau du' wrth ymyl y ffordd (gostyngiad o 4000 tonnell). Fodd bynnag, gwrthweithiwyd yr enillion hyn i raddau helaeth, gwaetha'r modd, gan effaith anamserol ffactorau allanol. Er enghraifft, newidiodd y rheolau cenedlaethol ar wastraff pren, ac o ganlyniad collwyd peth ailgylchu yn rhan gyntaf y flwyddyn (ni ddylai hyn gael ei ailadrodd yn 2020-21).</p> <p>Hefyd, cafodd ansicrwydd ynghylch darpariaeth fewnol yr MREC (Canolfan Ynni Adennill Deunyddiau) a chyflwr cyffredinol y farchnad effaith ar y gwastraff 'bagiau du' oedd yn cael ei anfon i adennill ynni, a chollwyd rhagor o ailgylchu o ganlyniad. Nawr bod dyfodol yr MREC wedi cael ei benderfynu gan yr Aelodau, mae modd sefydlu trefniadau tymor hwy ac ni ddylai hyn ddigwydd eto yn 2020-21. Pe na bai'r ddau beth yma wedi digwydd byddai'r Cyngor wedi rhagori ar y targed statudol o 64% gyda chanlyniad a ragwelir o 64.6%.</p> <p>Er i ni gasglu mwy o wastraff bwyd, cafwyd llai o wastraff gardd i gydbwyso hynny. Cafwyd gostyngiad cychwynnol yn swm y gwastraff gardd a gasglwyd yn chwarter cyntaf 2019-20 wrth newid i'r sachau i'w hailddefnyddio, ond roedd y symiau wedi cynyddu eto erbyn yr ail chwarter, wrth i'r newid ennill ei blwyf.</p> <p>Daeth adennill metelau o'r gwastraff 'bagiau du' yn yr MREC i ben pan ddaeth prosesu'r deunydd ar y safle i ben, ond dylem gael mwy o ailgylchu o brosesau Ynni o Wastraff mewn mannau eraill. Fodd bynnag, fel uchod, effeithiwyd dros dro ar swm y gwastraff a anfonwyd at Ynni o Wastraff gan faterion cysylltiedig â darpariaeth fewnol yr MREC. Hefyd gadawyd llai o rwbel i'w ailgylchu yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn 2019-20.</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>Yn olaf, cafwyd effaith amlwg ar gasgliadau gwastraff ac ailgylchu ym mis Mawrth 2020 gan argyfwng COVID-19. Er enghraifft, er bod swm y sbwriel a gasglwyd o ymyl y ffordd yn is ym mhob un o'r 11 mis blaenorol, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ar ôl cyflwyno cyfyngiad y cyngor ar wastraff ochr, roedd y gwastraff a gasglwyd ym mis Mawrth 2020 yn uwch nag ym mis Mawrth 2019.</p> <p>KPIs:</p> <p>Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2019-20 yw 61.74% (ffigur dros dro) o gymharu â tharged statudol Llywodraeth Cymru o 64%.</p> <p>Cynhyrchwyd 182 cilogram o wastraff gweddilliol fesul person yn 2019-20. Mae'r ffigur dros dro hwn yn debygol o newid ar ôl cael ei ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Y canlyniad a ddilyswyd yn 2018-19 oedd 216 cilogram.</p> <p>Mae 93.86% o'n strydoedd yn lân, sydd fymryn yn uwch na'n targed ar gyfer y flwyddyn, sef 93.6%, ac ychydig yn uwch na chanlyniad 2018-19, sef 93.57%.</p> <p>Ar gyfartaledd yn 2019-20 cymerodd y Cyngor 2.97 diwrnod i glirio sbwriel a ollyngwyd yn anghyfreithlon, sydd ychydig yn gyflymach na 3.21 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol, ac mae nifer yr achosion o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon wedi gostwng 23% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.3.1 Byddwn ni'n nodi cyfleoedd buddsoddi mewn twristiaeth ar gyfer y sector preifat a'r sector cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> • Fe roesom ni gyngor a chymorth i 6 unigolyn oedd yn awyddus i sefydlu profiad twristiaeth newydd yn y fwrdeistref a chyngor i 56 o gwmnïau twristiaeth sydd eisoes yn bodoli. Gall y cyngor a roddir amrywio o ymholiadau penodol ynghylch cyllido i gyngor ar farchnata a datblygu busnesau twristiaeth. • Cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid twristiaeth ar 15 Hydref 2019 i hysbysu rhanddeiliad ynghylch y brand lle newydd a'r cynnydd a wnaed gan y Tîm Twristiaeth newydd. • Cynhaliwyd gweithdy ar 20 Ionawr 2020 gyda busnesau twristiaeth oedd wedi gwneud cais i fod yn aelodau o'r 'clystyrau' cynnyrch trwy Ymgyrch Farchnata newydd Clystyrau Darganfod CNPT. Bydd chwe chlwstwr o gwmnïau twristiaeth yn cyflwyno'r 'profiadau' a bennwyd yn yr ymgyrch. Sicrhaodd yr ymgyrch gyllid o £80,910 trwy Dwristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru. • Yn ystod mis Mawrth 2020, rhoddwyd cyngor ar COVID-19 i'r sector twristiaeth trwy ddiweddariadau e-bost a galwadau ffôn. 	Gwyrdd
3.3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i adnewyddu, atgyweirio a chynnal	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd cais llwyddiannus am gyllid LEADER gan Gyfeillion Gwaith Dur Mynachlog Nedd. • Buom ni'n gweithio gyda Chyfeillion Margam i gwblhau'r gwaith adnewyddu mewnol ar Dŷ'r Tyrbin fel bod modd iddyn nhw symud i mewn. • Cafodd carreg filltir restredig ei hatgyweirio ar gais Cymdeithas Hanesyddol Sgiwen. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
a chadw adeiladau a strwythurau sy'n bwysig yn lleol	<ul style="list-style-type: none"> Cynorthwywyd Cyfeillion Parc Coffa Talbot i baratoi cynnig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn atgyweirio'r stondin bandiau. Cynorthwywyd TATA i ddylunio a gosod cofeb ym Mharc Talbot i'r rhai oedd wedi colli eu bywydau yn y gwaith. 	
3.3.3 Byddwn ni'n datblygu ac yn hyrwyddo'r sector twristiaeth lleol	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd 29 cam gweithredu cynllun rheoli cyrchfannau o gymharu â 24 y flwyddyn flaenorol. Fe wnaethon ni baratoi ar gyfer lansio'r brand lle twristiaeth newydd ac adeiladu'r wefan newydd ar gyfer cyrchfannau, oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2020, ond gohiriwyd hyn oherwydd COVID-19. Bydd hyn yn awr yn digwydd ym mis Medi 2020. Rydym hefyd wedi gorffen dylunio'r cyfeirlyfr cyrchannau newydd ar bapur, y bydd 30,000 copi ohono yn cael eu dosbarthu ledled De Cymru ac ar hyd coridor yr M4 yn hydref 2020, gyda'r nod o ddenu ymwelwyr sy'n aros mewn ardaloedd cymdogol. Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno 'Prosiect Datblygu Twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot' a ariannwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG), a chefnogwyd 80 o gyfranogwyr ac ymgysylltu â 55 o randdeiliaid. Dechreuwyd gweithio i gynllunio ar gyfer datblygiad pellach seilwaith ymwelwyr ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll a Pharc Coedwig Afan. Oherwydd effaith COVID-19 allem ni ddim dechrau'r broses o ddyfeisio Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd trosfwaol 2020-2025. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	Cyfeiriwch hefyd at Gam 3.3.1 uchod, os gwelwch yn dda.	
3.3.4 Byddwn ni'n datblygu'r modelau gwasanaeth sy'n cefnogi ein gwasanaethau hamdden, ein theatrau a'n parciau, fel bod llifoedd incwm newydd yn cefnogi eu gweithrediad a'u bod yn llai dibynnol ar gymhorthdal gan y Cyngor	<p>Daliwyd ati i weithio gyda Celtic Leisure a monitro eu perfformiad, er mwyn sicrhau bod y model ymddiriedolaeth hamdden yn cyflwyno'r hyn sy'n ofynnol gan y Cyngor, a hynny o ran darpariaeth o safon a gwerth am arian. Mae hon yn farchnad anodd, ac mae Celtic Leisure yn rhagweld diffyg masnachu mawr ar gyfer 2019-20.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau ym mis Mawrth 2020 fod awdurdod dirprwyedig i'w roi i Bennaeth Trawsfurfio mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Eiddo ac Adfywio, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithol, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant i lunio gwahoddiad terfynol i dendro ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unol â manyleb gyfredol y gwasanaeth (yn amodol ar unrhyw fân ddiweddariadau sy'n angenrheidiol) a chychwyn ar broses dendro fel y manylir yn yr adroddiad.</p>	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>Mae contract drafft a manyleb gwasanaeth ar y cyd â'r dogfennau ildio contract gofynnol yn cael eu paratoi. Y bwriad yw mynd i'r farchnad ym mis Medi/Hydref 2020, gyda'r nod o gychwyn ar gontract newydd ym mis Ionawr 2021.</p> <p>KPIs:</p> <p>Mewn perthynas â nifer yr ymwelwyr â'n canolfannau hamdden fesul 1,000 o boblogaeth, oherwydd pandemig COVID-19 nid oedd modd coladu ffigurau ymwelwyr mewn cyfleusterau ysgol oedd yn cael eu llogi gan y gymuned yn ystod chwarter olaf 2019-20, felly mae'r data ar gyfer y flwyddyn yn anghyflawn. Amcangyfrifir y byddai'r data yn rhyw 8,000 o ymwelwyr o gynnwys yr holl ddata, ond mae hynny'n dal o dan y targed ar gyfer y flwyddyn, sef 8,500.</p> <p>Bydd data ynghylch canran y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell ar gael ym mis Tachwedd 2020. Y targed ar gyfer 2019-20 yw 65%.</p>	
3.3.5 Byddwn ni'n datblygu'r hyn y mae ein theatrau yn ei gynnig er mwyn denu ystod eang o berfformiadau ac actorion	<p>Mae'r ddwy theatr sydd gennym yn cynnig rhaglenni addas ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae ein theatrau yn parhau i ddenu mwy o gynulleidfaoedd, gyda chynnydd o 17% yn nifer yr ymwelwyr. Mae Theatr y Dywysoges Frenhinol yn parhau i feithrin enw da fel lleoliad ar gyfer Comediwyr y teledu, a hefyd fel lleoliad cerddoriaeth. Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe wedi adolygu ei pholisi rhaglennu, er mwyn sicrhau bod yr hyn maen nhw'n ei gynnig yn fwy masnachol ac yn sicrhau mwy o fynychwyr. Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe eto wedi derbyn grant cynnal refeniw o £63,000 gan</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>Ganolfan y Celfyddydau Cymru. Cytunwyd ar gyllid CNPT ar gyfer Sinema Canolfan Celfyddydau Pontardawe, ac mae'r broses dendro ar waith.</p> <p>KPIs: Nifer yr ymweliadau â'n theatrau rhwng Ebrill a Rhagfyr 2019 oedd 217,161 (y data diweddaraf sydd ar gael oherwydd pandemig Covid-19), sy'n sylweddol uwch na'n targed o 180,000 ar gyfer yr un cyfnod, ac yn sylweddol uwch na nifer yr ymwelwyr yn ystod yr un cyfnod o 9 mis yn 2018-19.</p>	
3.3.6 Gweithio ac ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid ehangach i gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi cyfranogiad pobl leol yn ein hamgylchedd naturiol	<p>Mae'r 'Prosiect Gweithio gyda Byd Natur' sy'n derbyn arian grant yn cyflwyno rhaglen o lesiant a gweithgareddau cadwraeth yn y gymuned ar safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gan godi proffil yr amgylchedd naturiol a'i fanteision ehangach. Mae'r prosiect yn parhau i ennill momentwm, ac mae newydd ddathlu, a hyrwyddo, tair blynedd o gyflwyno prosiectau.</p> <p>Yn ystod y tair blynedd, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â 776 o bobl trwy gyfranogi mewn gweithgareddau llesiant a chadwraeth yn yr amgylchedd naturiol. Mae dros 30 o bobl wedi rhoi eu henwau i lawr i wirfoddoli, ac mae grŵp rheolaidd yn ymwneud yn weithredol â rheoli safleoedd ar draws Castell-nedd Port Talbot, gan gefnogi rheolaeth cadwraeth natur ar 21 o safleoedd hyd yma.</p> <p>Sicrhawyd mwy o gefnogaeth ar gyfer Partneriaeth Natur Lleol CNPT (LNP) trwy brosiect partneriaeth LNP Cymru, sy'n cael ei ariannu gan gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect wedi rhoi Cydlynedd LNP yn ei le i gefnogi'r bartneriaeth wrth ddatblygu ymchwil a gweithredu ar fioamrywiaeth er mwyn hyrwyddo</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>cadwraeth bioamrywiaeth yn CNPT.</p> <p>Sicrhawyd cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gyflwyno prosiect Mawndir Coll ym mhen uchaf Cwm Afan a Chwm Rhondda. Bydd y prosiect yn cyflawni gwaith adfer mawndir ar raddfa tirwedd, gan gefnogi dal a storio carbon naturiol a gwella bioamrywiaeth, ochr yn ochr â gweithgareddau ymgysylltiad cymunedol, hyfforddiant a llesiant. Cychwynnodd cyfnod datblygu'r prosiect ym mis Mehefin 2019, yn gweithio tuag at gynnig ariannu ar gyfer cyfnod cyflawni o 4 blynedd, i gychwyn yn gynnar yn 2021.</p> <p>Gan weithio ochr yn ochr â Chyfeillion Craig Gwladus, mae rhaglen o gefnogaeth i wirfoddolwyr, ymgysylltiad cymunedol a gweithgareddau llesiant wedi cael eu cyflwyno ym Mharc Gwledig Craig Gwladus. Sicrhawyd arian grant i gyflogi Rheolwr Prosiect i gadw golwg ar y gofynion o ran arian grant, cefnogi'r grŵp a datblygu syniadau ar gyfer mwy o gyfleoedd cyllido tymhorol ar gyfer y parc.</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd

Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.4.1 Gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i gyflwyno safleoedd datblygu strategol allweddol ar hyd coridor yr arfordir (gan gynnwys Coed Darcy, Glannau'r Harbwr ym Mhort Talbot, Parc Ynni Baglan a Champws Arloesedd Prifysgol Abertawe); a chyflawni twf cynaliadwy yn ardaloedd y cymoedd	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pentref Trefol Coed Darcy i gael ei ddatblygu yn unol â phrif gynllun cytunedig, ac mae pwysigrwydd hynny'n hanfodol o ystyried bod datblygiad Coed Darcy yn digwydd dros gyfnod y CDLI a'r tu hwnt. Mae'r Cyngor a'r datblygwr/St Modwen Developments Ltd wedi parhau i gydweithio ac mae Cytundeb Cyfreithiol A106 wedi cael ei ailrafod er mwyn caniatáu mwy o ddatblygiad preswyl yng ngogledd y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a chaniatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygu yn yr ardal ddeheuol, ynghyd ag elfen gyflogaeth y cynllun adfywio defnydd cymysg. Bydd cyfradd y cyflawni ar y safle o ran tai a seilwaith strategol allweddol yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl wrth symud ymlaen Mae ailddatblygu Bae Baglan yn ddyhead hirdymor sy'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni, a gallai rhannau o'r dyraniad fod yn addas i hwyluso twf yn yr economi gwybodaeth. Mae'r cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu mewn unedau llai ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ac yng Nglannau'r Harbwr o bosibl yn galw am unedau mwy, wrth i'r safleoedd hyn barhau i ddatblygu, ac felly mae Bae Baglan yn darparu digon o le a seilwaith i ganiatáu ehangu. Mae'r safle hefyd wedi derbyn statws parth menter, a ddylai annog buddsoddiad yn yr ardal. Cwblhawyd CCA Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<ul style="list-style-type: none"> Mae CCA Ffordd Fabian, sy'n cynnwys y tir sy'n gysylltiedig â champws Prifysgol Bae Abertawe, yn gwneud cynnydd ar hyn o bryd mewn cydweithrediad a chydweithwyr yn Ninas a Sir Abertawe. Mae fersiwn ddrafft flaenorol yn awr yn cael ei diweddarau at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus pellach â ffocws i roi sylw i'r sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt y Lagŵn Llanw ac a oes gan Brifysgol Abertawe unrhyw ddyheadau pellach o ran ehangu Campws y Bae. Bydd y ddau Awdurdod yn ceisio symud y CCA ymlaen a'i fabwysiadu yn 2020-21. Mae gwaith ar y CCA ynghylch 'Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot' yn symud ymlaen. Mae gwaith ychwanegol wedi digwydd i sicrhau dealltwriaeth lawnach o'r mecanweithiau llifogydd a'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar batrwm datblygiad yng Nglannau'r Harbwr. Ymhellach, bydd datblygiad y CCA yn cymryd i ystyried y gwaith cyfochrog sy'n digwydd yng nghyswllt Parth Menter y Glannau ym Mhort Talbot. Mae Prif Gynllun Seilwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer Parth Menter y Glannau ym Mhort Talbot. Rydym ni'n gwneud gwaith pellach i ddatblygu achos busnes y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. <p>Cyfeiriwch hefyd at gamau 3.1.1. a 3.1.2 uchod, os gwelwch yn dda.</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	KPI: Yn achos 2019-20, penderfynwyd ar 97.44% o'r holl geisiadau cynllunio yn brydlon (o fewn 8 wythnos). Mae hyn yn uwch na'n targed o 95% ar gyfer y flwyddyn, ac yn welliant bach ar y flwyddyn flaenorol.	
3.4.2 Hyrwyddo a diogelu portffolio amrywiol o dir cyflogaeth a chyfleoedd cyflogaeth yn y mannau cywir	<p>Cafodd 'Astudiaeth Asesu Economaidd a Darparu Tir Cyflogaeth' ei chomisiynu ar y cyd yn flaenorol gan CNPT ac Abertawe i lywio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) y ddau awdurdod. Roedd hyn yn nodi'r angen o ran cyflogaeth a'r cyswllt â'r galw am dai. Mae'r gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys trafodaethau parhaus sy'n troi o gwmpas y tair astudiaeth allweddol ar y cyd (ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru) a bydd pob un o'r tair astudiaeth yn llywio adolygiadau CDLliao unigol a hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau):</p> <ol style="list-style-type: none"> Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol (RES) – Yma nodir yr angen am dir cyflogaeth a'r cyflenwad ohono. Mae hyn wedi oedi dros dro oherwydd problemau adnoddau/capasiti yn y Cynghorau hynny sy'n canolbwyntio eu hymdrechion a'u sylw ar baratoi sylfaen o dystiolaeth ar gyfer eu CDLliao eu hunain. Mae'n werth nodi bod swyddi 'Swyddog Rhanbarthol' wedi cael eu creu'n ddiweddar yn Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad mae'n fwriad dychwelyd at yr RES yn y dyfodol. Astudiaeth Ddichonoldeb Ranbarthol (RVS) – Mae'r astudiaeth hon yn gwneud cynnydd da ers penodi 'Burrows-Hutchinson' i gynorthwyo'r broses. Casglwyd gwybodaeth gan awdurdodau lleol i lywio'r 'Model Dichonoldeb Safle-benodol'. Mae 	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>cyfres o gyfarfodydd swyddogion a digwyddiadau rhanddeiliaid eisoes wedi cael eu cynnal (i drafod y prosiect/rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd) ac mae disgwyl i'r model/adroddiad terfynol fod yn barod erbyn haf 2020.</p> <p>3. Asesiad Marchnad Dai Leol ar y Cyd (LHMA) – Mae'r Asesiad Marchnad Dai Leol ar y Cyd yn agos at gael ei gwblhau. Mae ORS (yr ymgynghorwyr a gomisiynwyd i ymgymryd â'r astudiaeth) wedi cynhyrchu drafft o Adroddiad Tai rhanbarthol trosfwaol (Prif Adroddiad) a sawl drafft o Adroddiadau Is-ardal ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Lleol (ALI) sy'n rhan o grŵp rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r adroddiadau drafft yn cael eu hadolygu a'u newid a bydd pob ALI yn eu cymeradwyo a'u dosbarthu i'r prif randdeiliaid ar gyfer sylwadau. Yn dilyn y broses hon, roedd disgwyl y byddai'r holl adroddiadau yn eu ffurf derfynol erbyn diwedd Mawrth 2020, ond oherwydd amrywiaeth o faterion (gan gynnwys COVID-19), rhagwelir y bydd yr holl adroddiadau wedi'u cymeradwyo erbyn diwedd y flwyddyn (2020).</p>	
3.4.3 Datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu o fentrau i gyflawni twf economaidd yng nghymunedau ein cymoedd	<ul style="list-style-type: none"> Mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo ar brosiectau posibl yn y Cymoedd. Cynhaliwyd Gweithdy i nodi rhaglen o brosiectau adfywio yng nghymunedau'r cymoedd. Cymeradwywyd cyllid Llywodraeth Cymru i gyflwyno 2 brosiect Sylfaenol oedd â ffocws ar gaffael yn yr economi leol. Mae cynnydd o ran hyn bellach wedi oedi oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ond mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cymeradwyaeth i gyflwyno fersiynau byrrach (6 mis) o'r ddau brosiect. Mae'r tîm Datblygu Economaidd yn parhau i gyflwyno rhaglen o 'Sesiynau Bwtcamp i Fusnes' yng nghymunedau'r cymoedd i gefnogi busnesau newydd a allai gychwyn a 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>rhoi cyngor, arweiniad a chyllid i fusnesau presennol sydd wedi'u lleoli yn y cymoedd. Mae dau ddigwyddiad wedi cael eu cynnal yng Nghwm Afan a Chwm Nedd, y mae 32 o bobl leol wedi'u mynychu. Gwaetha'r modd, oherwydd argyfwng COVID-19, canslwyd y digwyddiad a gynlluniwyd ar gyfer Ystalyfera.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r ceisiadau am gyllid yn parhau ac mae'r tîm Datblygu Economaidd wedi cymeradwyo 14 o geisiadau ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli a 4 ar gyfer busnesau newydd sy'n cychwyn yng nghymunedau ein cymoedd. Gallai'r ceisiadau hyn greu a/neu ddiogelu 78 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. 	
3.4.4 Nodi a sicrhau cyllid i gyflwyno'r rhaglen flaenoriaeth o fentrau yng nghymunedau ein cymoedd	Rydym ni'n parhau i chwilio er mwyn paru blaenoriaethau cymunedau'r Cyngor hwn yn y cymoedd â chyfleoedd cyllido posibl. Mae'r Tîm Adfywio yn gweithio i ddatblygu nifer o gynlluniau datblygu eiddo yng nghymunedau'r cymoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a gwella canol trefi a phentrefi, ac mae prosiectau niferus wrthi yn cael eu datblygu.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.5.1 Mae'r holl wasanaethau'n cydweithio i gyflawni'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Seilwaith Werdd ar draws y Fwrdeistref Sirol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r broses o roi'r 'Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth' ar waith yn parhau. Bu oedi gyda'r adroddiadau ynghylch y Cynllun Dyletswydd oherwydd COVID-19, ac mae'r adroddiadau bellach i'w cyflwyno yn hydref 2020. Mae meysydd gwasanaeth ar draws Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn cael eu hasesu er mwyn pennu'r potensial i waith gan wasanaethau o'r fath gael effaith ar fioamrywiaeth (yn gadarnhaol neu'n negyddol). Mae'r gwasanaeth ymgynghoriaeth newydd yn y Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwylt wedi creu dull mwy effeithlon a chos-effeithiol o roi sylw i ofynion lliniaru ar gyfer bywyd gwylt fel rhan o waith datblygu a gweithgareddau hanfodol y cyngor. Trwy weithio ar y cyd rhwng y Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwylt a Gofal Strydoedd, mae rheoli cynefinoedd, gwella mynediad ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr wedi digwydd ar nifer o safleoedd allweddol ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ein Gwarchodfeydd Natur Lleol a'n Parciau Gwledig. Rydym wedi rheoli blodau gwylt ar ymylon cadwraeth, gan ddarparu buddion i rywogaethau peillio. Cyflwynwyd rhaglen o blannu coed fel rhan o'r prosiect 'Coed i Ysgolion' ym mis Chwefror a Mawrth 2020, trwy grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Lluniwyd dyluniadau ar gyfer 11 o ysgolion a'u cyflwyno, gan gynnig digwyddiadau plannu addysgol ymarferol i bob ysgol, fel bod rhyw 5,000 o goed ifanc a 115 o rai safonol maint llawn yn cael eu plannu. Cyflwynwyd prosiect partneriaeth hefyd gyda Thai Tarian, er mwyn plannu 1,500 o goed ifanc eraill a 45 o goed safonol maint llawn mewn ardaloedd preswyl, ar y cyd â'r gymuned. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach

Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<ul style="list-style-type: none"> Trwy gefnogaeth Swyddog Coed Cymru'r Cyngor, mae cynlluniau ar waith i greu 68ha o goetir ar draws 7 cynllun (tir preifat a chyhoeddus). Bydd pob un o'r gweithgareddau hyn yn cefnogi uchelgais y Cyngor o ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd trwy ddal a storio carbon yn naturiol, ochr yn ochr â darparu manteision ehangach ar ffurf lliniaru llifogydd, bioamrywiaeth a llesiant trwy wella'r tirwedd trefol. Mae'r Tîm Bioamrywiaeth wedi gweithio mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr (Environment Systems) i greu rhestr o fannau gwyrdd hygyrch yn CNPT. Ar ôl ei gwblhau, bydd y gwaith ymchwil/data yn cael ei fwydo i mewn i'r Asesiad Seilwaith Werdd (GIA) a gynhelir i ganfod tystiolaeth ar gyfer y CDLI Amnewid. Defnyddir yr asesiad yn offeryn fydd yn galluogi'r Awdurdod i ddatblygu dull gweithredu clir i wella llesiant trwy gynyddu mynediad at Seilwaith Werdd ochr yn ochr â gwella bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch ecolegol. Bydd yn darparu gwybodaeth waelodlin ar gyfer y Cyngor er mwyn datblygu strategaeth mannau gwyrdd a pholisïau i'r CDLI. Dyfarnwyd Baner Werdd uchel ei bri i nifer o fannau gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol. Yn eu plith mae Parc Gwledig Ystâd y Gnoll, Parc Gwledig Margam, Parc Coffa Talbot a Gerddi Victoria yng Nghastell-nedd. Dyfarniad y Faner Werdd i Barciau yw'r meincnod ar gyfer y mannau gwyrdd gorau yng Nghymru a Lloegr ac mae'n dangos i ymwelwyr bod y parciau'n cael eu rheoli a'u cynnal at safon uchel, gyda chyfleusterau ardderchog. <p>KPI: Nifer yr ardaloedd â chyfoeth o fioamrywiaeth sydd wedi'u diogelu a/neu eu gwella ar</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	hyn o bryd yw 43. Ein targed yw 49, ond yn dilyn adolygiad o'r rhestr o safleoedd, mae nifer o safleoedd wedi cael eu tynnu oddi arni.	
3.5.2 Byddwn ni'n defnyddio ein pwerau statudol i herio lefelau annerbyniol o lygredd	<p>Mae monitro aer yn dal i ddigwydd ar draws CNPT a chyflwynwyd yr adroddiad cynnydd i Fwrdd Adfywio a Datblygu Cynaliadwy y Cabinet ar 18 Hydref 2019.</p> <p>Mae ardal Port Talbot/Taibach wedi cael ei datgan yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA). Mae un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) yn ein Cynllun Corfforaethol yn mesur nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach). Pennwyd targed blynyddol o 35 diwrnod ar gyfer nifer y diwrnodau pan awn dros y trothwy llygredd o ran PM10. Ar 31 Rhagfyr 2019 (y data diweddaraf sydd ar gael), roeddem wedi mynd dros y terfyn hwn 4 gwaith, sy'n sylweddol is na'r targed ar gyfer y Dangosydd hwn.</p> <p>Mae gennym hefyd raglen waith a gynlluniwyd bob blwyddyn i wirio bod allyriadau ansawdd aer safleoedd yn cyd-fynd ag amcanion ansawdd aer Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd rydym wedi cyflwyno 40 o hawlenni amgylcheddol i wahanol fathau o fusnesau. Mae'r hawlenni'n cael eu cyflwyno gan mwyaf i reoli allyriadau llygryddion aer. Enghreifftiau o hyn yw gorsafoedd petrol, gweithgareddau mwynau (e.e. glo, chwareli, cerrig ar gyfer wyneb ffyrdd, a chynhyrchu sment sorod), cynnyrch a chynhyrchu metelau technoleg uchel etc.) Pennir lefelau'r allyriadau yn ôl canllawiau a osodir gan Lywodraeth Cymru. Sylwer bod</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	hyn yn wahanol i dargedau ansawdd aer cyffredinol fel yn achos nicel.	
3.5.3 Byddwn ni'n gweithio ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid ehangach i gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi cyfranogiad pobl leol yn ein hamgylchedd naturiol a'i hygyrchedd	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy diweddaraf y Cyngor (ROWIP). Cymeradwywyd adroddiad ôl-ymgynghori gan y Cyngor ar 20 Mawrth 2020, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.</p> <p>Cynnydd fel yn achos Cam 3.3.6 uchod.</p>	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.6 Cyflawni cyfraniad cadarnhaol i'r agenda gynllunio ranbarthol

Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.6.1 Byddwn ni'n gweithio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol i asesu cwrmpas Cynllun Datblygu Strategol a'i gyflwyno	<p>Yng ngoleuni'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft a'r ddeddfwriaeth newydd (Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, sydd i ddod yn gyfraith yn gynnar yn 2021). Bydd y Bil yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydweithio rhanbarthol trwy greu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CJCs) a gwneud paratoi SDPs yn ofynnol. Bydd angen i'r trafodaethau rhwng y gwahanol awdurdodau cynllunio lleol ar draws y rhanbarth gyflymu er mwyn penderfynu sut dylai'r broses o baratoi SDP symud ymlaen, gan gynnwys cytuno ar y trefniadau llywodraethu, yr adnoddau sydd ar gael (staff/cyllid), ac amseriad paratoi'r cynllun.</p> <p>Mae gwaith wedi parhau yng nghyswllt cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Mae trafodaethau rhwng Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Polisi yn awr yn digwydd yn rheolaidd i ganfod rôl awdurdodau yn y dyfodol, cwrmpas y gwaith fydd yn ofynnol ar gyfer unrhyw SDP yn y dyfodol, a'r cyfleoedd ar gyfer mentrau ac astudiaethau ar y cyd yn y dyfodol.</p> <p>Ers 2017/18, mae swyddogion CNPT wedi cyflawni rôl arweiniol/ysgrifenyddol Grŵp Cynllunio Swyddogion Strategol De-orllewin Cymru, ond yn sgîl dechrau'r adolygiad o'r CDLI a dwysedd y rhaglen waith, bydd y rôl hon naill ai'n trosglwyddo i Awdurdod arall yn y grŵp rhanbarthol neu trwy gadeiryddiaeth gylchol.</p> <p>Cyfeiriwch hefyd at Gam 3.4.2 uchod, os gwelwch yn dda</p>	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.7 Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.7.1 Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i wella hygyrchedd a theithio llesol ar draws y fwrdeistref sirol a'r Ddinas-Ranbarth ehangach trwy gyfwyno seilwaith trafniadaeth allweddol	<p>Cwblhawyd cyfnod dau o 'Lwybr Teithio Llesol Llwybr Halio Camlas Nedd' (o Stryd y Bont, Castell-nedd, i Lansawel) gyda gwelliannau i arwynebu, golwg a hygyrchedd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN 47) yn ymyl Camlas Nedd.</p> <p>Cwblhawyd gwaith adeiladu hefyd ar y llwybr beicio yn ymyl Ffordd Fabian (ger Cwrs Golff Earlswood). Mae cynllun Ffordd Fabian wedi cynnwys wyneb newydd, gwell arwyddion a marciau ffordd, yn ogystal â gwella'r draenio mewn tanffordd sy'n rhan o'r llwybr.</p> <p>Dyfarnwyd £334k o gyllid craidd teithio llesol i Gastell-nedd Port Talbot yn 2019-20 ar gyfer gwaith dylunio pellach, mân waith gwella, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. Mae'r canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llwybr Teithio Llesol Pontardawe (Cyfnod 1) – gwaith gosod wyneb newydd, darparu arwyddion, marciau ffordd, dileu rhwystrau a llystyfiant. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer Cyfnod 2. Stryd yr Angel i Ysgol Gyfun Dŵr y Felin – diffinio a gwella'r llwybr troed rhwng y bont bresennol i gerddwyr a chanol tref Castell-nedd, gan gynnwys gosod wyneb newydd a phalmant cyffyrddol/mannau croesi is. Pre-Work Feasibility Activities (Various Routes) – design, land negotiation and consultation and engagement. Archwilio a Dylunio Arwyddion Llwybrau Teithio Llesol – mae archwiliad i ganfod nifer, 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.7 Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>math ac addasrwydd yr arwyddion sydd yn eu lle ar draws y rhwydwaith Teithio Llesol a dylunio arwyddion newydd yn unol â chanllawiau cenedlaethol wedi cael ei gwblhau mewn cydweithrediad â Sustrans.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio Mesurau Rheoli Mynediad – cynhaliwyd archwiliad (ar y cyd â Sustrans) i ganfod nifer, math ac addasrwydd y rhwystrau sydd yn eu lle ar draws y rhwydwaith. • Symud/Amnewid Mesurau Rheoli Mynediad (Cyfnod 1) – ar sail yr archwiliad, mae mesurau rheoli mynediad wedi cael eu blaenoriaethu, ac o ganlyniad bydd chwe rhwystr yn cael eu symud. • Hyrwyddo llwybrau ac ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid a gwaith cyhoeddusrwydd, hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ac arolygon. • Dichonoldeb Llogi Beiciau – penodwyd ymgynghorwyr i edrych ar ddichonoldeb cynllun llogi beiciau yng Nghastell-nedd Port Talbot. 	
3.7.2 Byddwn ni'n ymdrechu i gynnal ac ehangu'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol ac archwilio atebion amgen o ran	<ul style="list-style-type: none"> • Dechreuwyd ar y gwaith swmpus o ailgyflwyno'r cardiau Consesiynol ym mis Medi 2019, yn dilyn newidiadau yn y Canllawiau Trafnidiaeth Gymunedol a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth ym mis Medi 2019. Hyd yma, mae dros 14,000 wedi cael eu prosesu'n llwyddiannus. Rydym ni'n parhau i gydweithio'n agos â chwmnïau bysiau a sefydliadau partner trydydd sector i gynnal gwasanaethau bws a helpu gyda'r gwaith o ehangu'r broses o amnewid cardiau consesiynol a symud ymlaen oddi mewn i ofynion y canllawiau. • Buom ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella cynllun ceir cymunedol yn Nyffryn Aman, ond oherwydd pandemig COVID-19 mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio. 	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.7 Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu

Cam	Cynnydd	Statws CAG
trafnidiaeth lle nad yw gwasanaethau trafniadeth confensiynol yn gynaliadwy bellach	<ul style="list-style-type: none"> Mae pont 100 oed sy'n ddolen gyswllt allweddol rhwng dwy gymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael ei thrwsio'n llwyddiannus. Roedd angen gwaith trwsio ar bont Pontwalby, yng nghysgod yr A465, sy'n ddolen gyswllt ar y ffordd rhwng cymunedau Glyn-nedd a Phontwalby, os oedd i barhau'n weithredol. Gwnaed gwaith atgyweirio concrid helaeth o dan y bont er mwyn sicrhau ei bod yn dal i weithredu am genedlaethau i ddod. Heb y bont, byddai pobl yn y ddwy gymuned yn cael eu gwahanu gan ddargyfeiriad hir. Cyflawnwyd ein targedau ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyflwr ein ffyrdd A, B ac C. Mae data canlyniadau'r flwyddyn i'w weld isod, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyfres 2019-20 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol. <p>KPIs: Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael – mae 4.99% o'r ffyrdd A mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Mae hyn oddi mewn i'n targed o 5% ar gyfer 2019-20 ac yn welliant ar ffigur 2018-19 o 5.22%.</p> <p>Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael – mae 2.84% o'r ffyrdd B mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Mae hyn oddi mewn i'n targed o 5% ar gyfer 2019-20 ac yn welliant ar ffigur 2018-19 o 3.28%</p> <p>Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael – mae 5.68% o'r ffyrdd C mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Mae hyn oddi mewn i'n targed o 10% ar gyfer 2019-20, ond wedi codi rhywfaint o ffigur canlyniad 2018-19, sef 4.9%</p>	

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Blaenoriaeth Gwelliant 3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol

Cam	Cynnydd	Statws CAG
3.8.1 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella seilwaith a chysylltedd digidol ar draws y fwrdeistref sirol	<p>Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda 'Superfast' Llywodraeth Cymru i gyflwyno digwyddiadau a gweithdai yn ardal CNPT. Roedd digwyddiad gweithdy i gefnogi busnesau i fedru mwyafu'r defnydd mae modd ei wneud o TGCh wedi'i gynllunio ar gyfer chwarter olaf 2019-20. Mae cyfres o weithdai rhithwir yn awr wedi cael eu cynnal ers dyfodiad pandemig COVID-19.</p> <p>Rydym ni'n gweithio gyda phartneriaid i gael hyd i gyfleoedd ar gyfer mathau newydd o seilwaith technoleg a datblygu sgiliau TGCh, mae'r gwaith hwn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lorawan (Rhwydwaith Ystod Hir ac Ardal Eang) – rhwydwaith seilwaith sy'n golygu bod modd datblygu technoleg <i>Internet of Things</i>. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Tata, ond ni themlai Bwrdd y Parth Menter y gallent gefnogi'r datblygiad hwn. Mae bwriad i chwilio am ragor o gyfleoedd. Mae'r datblygiad hwn wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19. • Cwmwl AWS (Gwasanaethau Gwe Amazon) – Mae cyfarfod cychwynnol gyda busnes angori allweddol wedi cael ei gynnal. Ni ddigwyddodd y cyfarfod ynghylch y weledigaeth gan fod angen i AWS dderbyn cadarnhad pellach gan y sector preifat. Trafodwyd cyfleoedd eraill gydag AWS yng nghyswllt eu gweithgaredd cysylltiedig â BBaChau, academia a busnesau newydd, ac fe wnaethon nhw ddangos diddordeb. Mae potensial i gyflwyno gweithdai gweithgaredd cwmwl am ddim i BBaChau ar y cwmwl. Mae trafodaethau pellach i ddod. Holwyd ynghylch diddordeb busnesau eraill yn y sector 	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	<p>preifat. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19.</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu sgiliau TGCh – mae'r gwaith hwn yn cysylltu ysgolion â diwydiant er mwyn gallu creu cymhwyster ffurfiol sydd â ffocws ar ddiwydiant ac wedi'i lunio ganddo. Roedd y prosiect yn mynd rhagddo gydag ysgol leol a chwmni technegol mewnfuddsoddi oedd yn cychwyn. Fodd bynnag, mae'r gweinyddwyr wedi cael eu galw i mewn yn achos y buddsoddwr, felly mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i gael hyd i bartner newydd posibl. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19. Prinder sgiliau TGCh a datblygiad ar gyfer cwmnïau technoleg presennol – Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol. Mae angen rhychwantu pellach i symud y prosiect yn ei flaen a'i gysylltu â'r prosiect AWS. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio am y tro oherwydd pandemig COVID-19. 	
3.8.2 Byddwn ni'n helpu i hyrwyddo Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Band Eang Cyflym lawn i Gymru	<p>Rydym ni'n parhau mewn cysylltiad â 'Superfast' Llywodraeth Cymru er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau.</p> <p>Fe wnaethom ni gwrdd â Net Support UK (NSUK) i drafod y consesiwn seilwaith prif gyflenwad ffeibr. Bydd materion allweddol a chamau gweithredu yn cael eu symud ymlaen ar lefel Cyfarwyddwr Rhanbarthol.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i ganfod ble manteisiwyd ar y gwasanaeth a ble nad yw hynny wedi digwydd. Bydd cymunedau lle na welwyd llawer o ddiddordeb yn cael eu targedu er mwyn hybu mynediad at Wasanaethau Cyflym lawn, sydd ar gael mewn mwy na 90% o'r sir. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni fanteisiwyd ar y gwasanaeth oherwydd diffyg gallu i dalu</p>	Ambr

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
	amdano neu ddewis personol i beidio â'i ddefnyddio.	
3.8.3 Byddwn ni'n cefnogi'r trydydd sector i alluogi mwy o bobl i gael mynediad i wasanaethau ar-lein	Mae'r Llysgennad Cynhwysiad Digidol, swydd sy'n cael ei hariannu o Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig, wedi parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cynhwysiad digidol ymhlith cyrff trydydd sector. Mae hefyd wedi gweithio gyda llawer o grwpiau cymunedol ar hyd y flwyddyn, yn meithrin diddordeb a hyder i ddefnyddio'r Rhyngwrdd, yn arbennig ymhlith yr henoed, ac wedi hynny mae rhai grwpiau wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer seilwaith digidol i ddatblygu eu gwaith. Rhoddwyd cyflwyniad ar fanteision cael mynediad i wasanaethau digidol i gyfanswm o 352 o unigolion o 10 grŵp cymunedol gwahanol.	Gwyrdd
3.8.4 Byddwn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd strategaethau digidol effeithiol, gan gynnwys mesurau i roi sylw i eithrio digidol, ymhlith partneriaid y	Ffurfiwyd Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i ddatblygu dull cydweithredol o gynyddu cyfraddau cynhwysiad digidol ar draws y fwrdeistref sirol. Mae asiantaethau'r BGC wedi ymrwmo i ddylunio gwasanaethau ar-lein gyda dealltwriaeth o broffil digidol y cwsmeriaid y mae angen iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau. Mae nifer o sefydliadau'r BGC yn awr wedi ymrwmo i'r Siarter Cynhwysiad Digidol ac ar 4 Mawrth 2020 dyfarnwyd achrediad llawn y Siarter Cynhwysiad Digidol i'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol. Mae natur strategol a chroestoriadol y gwaith cynhwysiad digidol mae BGC Castell-nedd Port Talbot yn ei wneud yn cael ei nodi gan Gymunedau Digidol Cymru fel enghraifft o arfer da.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl		
Blaenoriaeth Gwelliant 3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol		
Cam	Cynnydd	Statws CAG
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus		

Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi

Rydym ni'n croesawu adborth ar yr wybodaeth yn yr Adroddiad hwn trwy:

E-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Mae gennym ni hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ynghylch amrywiol wasanaethau yr ydym ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan; gallwch chi gael mynediad iddyn nhw trwy'r ddolen hon:

<http://www.npt.gov.uk/dweudeichdweud>



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Ewch i wefan y Cyngor: www.npt.gov.uk



Dilynwch ni ac ychwanegu eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor:
<https://www.facebook.com/CyngorCnPT>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegu eich negeseuon Trydar ar ein Tudalen Twitter: [@CyngorCnPT](https://twitter.com/CyngorCnPT)



Dilynwch ni ar Instagram: <https://www.instagram.com/nptcouncil/>

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763172 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk